Helpu Cymru i leihau ei Hôl Troed Carbon
Help Wales reduce its Carbon Footprint

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# Strategaeth Tlodi Tanwydd

## Ymgynghoriad

Tachwedd 2009








© Hawlfraint y Goron 2009

## Rhagair gan y Gweinidog

Un o ganlyniadau allweddol yr ymgynghoriad ar y Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Effeithlonrwydd ac Arbedion Ynni oedd bod angen diwygio Strategaeth Tlodi Tanwydd Llywodraeth y Cynulliad.

Mae tlodi tanwydd yn cael effaith ar sawl un o bortffolios Llywodraeth y Cynulliad a dim ond drwy gydweithio y gallwn roi'r cymorth sydd ei angen ar ddeiliaid tai yng Nghymru sy'n wynebu anawsterau i ymdopi â'u biliau tanwydd. Mae'r gwaith a wneir mewn sawl ran o Lywodraeth y Cynulliad yn ategu'r frwydr yn erbyn tlodi tanwydd a bu llawer o adrannau yn rhan o'r broses o ddatblygu ein Strategaeth Tlodi Tanwydd newydd.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ymrwymedig i sicrhau gwell dêl ar gyfer deiliaid tai yng Nghymru sy'n wynebu tlodi tanwydd. Mae hyn yn cynnwys cynnal cyfarfodydd â Gweinidogion ledled y DU, darbwyllo cwmnïau ynni i wneud mwy i helpu cwsmeriaid sy'n agored i niwed yng Nghymru, sicrhau bod Ofgem a'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd yn ymwybodol o anghenion deiliaid tai yng Nghymru a gweithio gyda phartneriaid ledled Cymru i gyflwyno rhaglenni effeithiol i fynd i'r afael â thlodi tanwydd yng Nghymru.

Mae'n bwysig cydnabod bod tlodi tanwydd yn galw am gamau gweithredu effeithiol gan amrywiaeth o sefydliadau eraill a bod dull cydgysylltiedig o fynd i'r afael â thlodi tanwydd yn hanfodol bwysig. Mae nifer o sefydliadau eisoes yn gweithio i leihau nifer yr aelwydydd yng Nghymru sy'n byw mewn tlodi tanwydd. Mae'n bwysig sicrhau y gweithredir dull cydgysylltiedig er mwyn sicrhau bod y defnydd gorau yn cael ei wneud o'r adnoddau sydd ar gael yng Nghymru.

Yn ddiweddar, cefais gais gan Gynghrair Tlodi Tanwydd Cymru i lansio eu Siarter Tlodi Tanwydd, a oedd yn galw am:-

- Gynllun gweithredu manwl yn nodi sut a phryd y caiff tlodi tanwydd ei ddileu yng Nghymru.
- Cymorth i sicrhau bod pob aelwyd sy'n wynebu tlodi tanwydd yn aros yn gynnes – hyd nes y caiff tlodi tanwydd ei ddileu.
- Dull cydgysylltiedig ac unedig ym mhob rhan o'r sector statudol (ar lefel y DU a Chymru) sy'n cynnwys partneriaid o'r sector preifat, y sector gwirfoddol a'r sector cymunedol yng Nghymru.

Mae'r strategaeth ddrafft hon yn gam cyntaf pwysig mewn ymateb i'r Siarter ac rwyf wedi cynnwys yr hyn y gelwir amdano yn y polisi yn y strategaeth lle bynnag y bo'n bosibl. Mae tlodi tanwydd yn fater cymhleth a bydd angen dull cydgysylltiedig i fynd i'r afael ag ef.

Edrychaf ymlaen at gael eich barn ar ein cynigion ac i weithio gyda phartneriaid ledled Cymru i fynd i'r afael â thlodi tanwydd.

**Jane Davidson AC**
**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai**

# Cynnwys

**Tudalen**


| | | | |
|---|---|---|---|
| **1.** | **Ymateb i'r ymgynghoriad hwn** | | **1** |
| **2.** | **Diben yr ymgynghoriad hwn** | | **2** |
| **3.** | **Beth yw Tlodi Tanwydd?** | | **6** |
| | 3.1 | Effeithiau Tlodi Tanwydd a Byw mewn Cartref Oer ar Iechyd | 6 |
| | 3.2 | Ffeithiau sy'n Gysylltiedig â Marwolaethau Ychwanegol y Gaeaf | 7 |
| **4.** | **Amcanion Tlodi Tanwydd a'r cynnydd yn eu herbyn** | | **9** |
| | 4.1 | Ein hamcanion tlodi tanwydd | 9 |
| | 4.2 | Cynnydd yn erbyn amcanion | 9 |
| | 4.3 | Tlodi tanwydd ledled Cymru yn 2004 | 12 |
| **5.** | **Camau i fynd i'r afael â thlodi tanwydd** | | **15** |
| **6.** | **Mynd i'r Afael â Thlodi Tanwydd yng Nghymru** | | **20** |
| | 6.1 | Cyngor, cymorth ac atgyfeiriadau | 20 |
| | 6.2 | Cydweithio | 21 |
| | 6.3 | Mesurau Effeithlonrwydd Ynni a Thechnolegau Cynhyrchu Ynni Carbon Isel neu Ddi-garbon | 23 |
| | 6.4 | Cymorth Cymru Gyfan | 24 |
| | 6.5 | Rhaglen yn seiliedig ar ardal | 26 |
| | 6.6 | Gwella safonau tai | 27 |
| | 6.7 | Cysylltiadau rhwng gwella perfformiad ynni tai, adfywio a'r economi | 28 |
| | 6.8 | Camau Gweithredu ar lefel Gymunedol | 28 |
| | 6.9 | Helpu deiliaid tai i dalu am welliannau ynni | 29 |
| | 6.10 | Sicrhau'r Incwm Mwyaf Posibl | 29 |
| | 6.11 | Prisiau ynni | 30 |
| | 6.12 | Rheoliadau a Chynlluniau Statudol | 31 |
| **7.** | **Monitro a Chyflwyno Adroddiadau** | | **33** |
| | **Atodiad 1** | | **34** |
| | Manylion cynigion ar gyfer newidiadau interim i'r Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref (HEES) yn 2009/10 | | 34 |
| | **Atodiad 2** | | **37** |
| | Asesiadau polisi | | 37 |

# 1. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

A fyddech cystal ag ymateb yn electronig os yn bosibl i neespteam@wales.gsi.gov.uk erbyn 4 Ionawr 2010.

Fel arall, gallwch anfon eich sylwadau drwy'r post i:-

Ymgynghoriad ar y Strategaeth Tlodi Tanwydd
Yr Is-adran Newid yn yr Hinsawdd a Dŵr
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Bydd yr ymgynghoriad yn para am wyth wythnos. Mae'r cyfnod ymgynghori ychydig yn fyrrach na llawer o ymgynghoriadau Llywodraeth y Cynulliad am y rhesymau canlynol:-

- Cafwyd ymgynghoriad llawn ar y Strategaeth Tlodi Tanwydd wreiddiol a'r amcanion a'r targedau ynddi.
- Rydym bellach yn cynnig diwygio'r Strategaeth bresennol, ond ni fyddwn yn gwneud newidiadau i'r amcanion a'r targedau cyfredol.
- Nodwyd y rhan fwyaf o'r cynigion a chynhaliwyd ymgynghoriad arnynt yn yr ymgynghoriad ar y Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Effeithlonrwydd ac Arbedion Ynni a gynhaliwyd yn gynharach eleni.

Mae croeso i chi wneud sylwadau ar unrhyw agwedd ar y Strategaeth ddrafft er bod gennym ddiddordeb arbennig yn eich ymatebion i'n cwestiynau. Nid oes angen i chi ateb yr holl gwestiynau oni bai bod gennych safbwyntiau ar bob un ohonynt.

Os oes gennych ymholiadau am y ddogfen ymgynghori, gallwch gysylltu â'r tîm Effeithlonrwydd Ynni a Thlodi Tanwydd yn y cyfeiriad e-bost uchod neu ar 029 2082 5393.

***Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 - Cyfrinachedd Ymgynghoriadau***

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Bydd y crynodeb yn cynnwys rhestr o ymatebwyr. Gellir cyhoeddi ymatebion llawn, yn cynnwys enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr awdur, gan fod hyn yn gwneud yr ymgynghoriad yn fwy credadwy. Os nad ydych am gael eich enwi fel awdur eich ymateb, ysgrifennwch atom i ddatgan hynny'n benodol.

Am ragor o wybodaeth am God Ymarfer y Cynulliad o ran ymdrin â cheisiadau am gael gweld gwybodaeth a ddelir ganddo, ewch i'n gwefan: www.gwybodaeth.cymru.gov.uk.

## 2. Diben yr ymgynghoriad hwn

Yn 2003, cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad ei Strategaeth Tlodi Tanwydd *Deddf Cartrefi Cynnes ac Arbed Ynni 2000* - *Ymrwymiad Tlodi Tanwydd i Gymru*. Mae'r Strategaeth yn nodi targedau Llywodraeth y Cynulliad mewn perthynas â thlodi tanwydd a sut y bwriedir eu cyflawni, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Cartrefi Cynnes ac Arbed Ynni 2000.

**Gofynion y Ddeddf Cartrefi Cynnes ac Arbed Ynni**

Daeth *Deddf Cartrefi Cynnes ac Arbed Ynni 2000* i rym yng Nghymru yn 2002 ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cynulliad Cymru gynhyrchu Strategaeth Tlodi Tanwydd sy'n:-

- Diffinio tlodi tanwydd.
- Nodi pecyn cynhwysfawr o fesurau ar gyfer sicrhau y caiff ynni ei ddefnyddio'n effeithlon.
- Nodi amcanion interim i'w cyflawni a'r dyddiadau ar gyfer eu cyflawni.
- Nodi dyddiad targed ar gyfer cyflawni'r amcan o sicrhau, cyhyd ag y bo'n rhesymol ymarferol, nad yw pobl yn byw mewn tlodi tanwydd.

Mae'r targedau a'r diffiniadau a nodwyd yn y Strategaeth honno yn weithredol o hyd ond bu datblygiadau sylweddol yn y mesurau polisi sy'n cael eu cymryd, a'r mesurau a gynigir ar gyfer y dyfodol, gan Lywodraeth y Cynulliad a Llywodraeth y DU i ategu'r gwaith o ddileu tlodi tanwydd.

Diben yr ymgynghoriad hwn yw rhoi crynodeb o gynnydd yn erbyn ein hamcanion tlodi tanwydd gan ddefnyddio'r ystadegau diweddaraf ar dlodi tanwydd a gyhoeddwyd yn 2007, a llywio diweddariad i'r Strategaeth sy'n canolbwyntio ar y mesurau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â thlodi tanwydd.

Bwriedir i'r ymgynghoriad hwn a'r ddogfen derfynol ddilynol fodloni'r gofyniad bod Llywodraeth y Cynulliad, o bryd i'w gilydd, yn asesu effaith ei Strategaeth a'r cynnydd sy'n cael ei wneud ac yn gwneud unrhyw ddiwygiadau y tybir sydd eu hangen. Llywiwyd yr ymgynghoriad hwn gan yr ymchwil a'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Effeithlonrwydd ac Arbedion Ynni.

Mae'r ymgynghoriad yn cydnabod bod gan Lywodraeth y Cynulliad bwerau cyfyngedig mewn perthynas â rhai o'r ffactorau allweddol sy'n cyfrannu at dlodi tanwydd. Er mwyn cyflawni ein hamcanion tlodi tanwydd, rydym yn dibynnu ar y camau sy'n cael eu cymryd gan Lywodraeth y DU, Ofgem, cwmnïau ynni ac eraill ar agweddau ar dlodi tanwydd lle nad oes gan Lywodraeth y Cynulliad bwerau i weithredu ei hun, yn ogystal â chamau a gymerir gan Lywodraeth y Cynulliad yn y meysydd hynny y gall ddylanwadu'n uniongyrchol arnynt.

Ein nod, fel yr amlinellir yn yr ymgynghoriad hwn ar fersiwn diwygiedig o'n strategaeth tlodi tanwydd, yw sicrhau bod yr ymyriadau y gallwn eu gwneud yn cael yr effaith fwyaf bosibl a gwybod pan fo angen i eraill gymryd camau i gyflawni ein hamcanion.

Mae'r ymgynghoriad hefyd yn gosod camau i leddfu tlodi tanwydd yng nghyd-destun agenda polisi ehangach Llywodraeth y Cynulliad:-

- Mae *Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned - Cynllun Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cynulliad Cymru* - yn nodi gweledigaeth Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer Cymru Gynaliadwy, lle rydym ond yn defnyddio ein cyfran deg o adnoddau'r ddaear ac yn dod yn gymdeithas fwy teg a chyfiawn... mae 25 y cant o ôl troed ecolegol Cymru yn ymwneud â sut rydym yn defnyddio ynni yn ein cartrefi. Bydd lleihau tlodi tanwydd yn cyfrannu at leihau ôl troed ecolegol Cymru a'n hamcanion datblygu cynaliadwy ehangach:-

  *'Cymunedau diogel, cynaliadwy a deniadol lle mae pobl yn byw, gweithio, cael mynediad at wasanaethau, a lle mae pobl mewn iechyd da'.* Gall tlodi tanwydd gael effeithiau sylweddol ar iechyd; bydd mynd i'r afael â'r mater yn helpu i greu cymunedau lle mae pobl mewn iechyd da.

  *'Cymru deg, gyfiawn a dwyieithog, lle caiff dinasyddion o bob oedran a chefndir eu grymuso i benderfynu ar natur eu bywydau eu hunain, llywio eu cymunedau a chyflawni eu potensial llawn'.* Mae tlodi tanwydd yn deillio o anghydraddoldebau yn ein cymdeithas. Mae helpu i leihau effaith biliau tanwydd uchel yn helpu i greu cymdeithas fwy teg a chyfiawn, drwy sicrhau nad yw'r rheini sydd â'r lleiaf yn dioddef yn anghymesur.

- Bydd *Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd* Llywodraeth Cynulliad Cymru yn nodi sut y byddwn yn gweithio tuag at gyflawni ein hymrwymiad i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr dri y cant y flwyddyn o 2011, ac yn cyfrannu at gyflawni cyllidebau carbon statudol y DU. Byddwn hefyd yn sicrhau bod yr atebion a ddefnyddiwn i fynd i'r afael â thlodi tanwydd yn cyfrannu at leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr.

- Mae *Strategaeth Cynhwysiant Ariannol Cymru, "Mae Pawb yn Cyfrif"*, yn ceisio hwyluso ymateb amlasiantaethol cyfannol a chydgysylltiedig i faterion sy'n ymwneud â chynhwysiant ariannol. Ceir cysylltiadau clir rhwng cynhwysiant ariannol a thlodi tanwydd a bydd angen mynd i'r afael â'r rhain os ydym am lwyddo i gyflawni ein nod o hyrwyddo cynhwysiant ariannol. Mae'r elfennau mwyaf perthnasol o'r Strategaeth Cynhwysiant Ariannol yn cynnwys:-

  - Rhoi cyngor mwy integredig.
  - Tîm newydd o Hyrwyddwyr Cynhwysiant Ariannol i Gymru.
  - Cynyddu croesgyfeirio rhwng asiantaethau.

    - Cyngor ariannol effeithiol a hygyrch.
    - Mwy o ymwybyddiaeth o ffynonellau lle ceir cyngor diduedd ar ddyled yn rhad ac am ddim.
    - Datblygu mudiad undebau credyd cryf a chynaliadwy ledled Cymru.

- Mae'r *Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru* yn nodi fframwaith cynhwysfawr ar gyfer y 10 mlynedd nesaf i sicrhau bod Llywodraeth y Cynulliad yn datblygu polisïau a chynlluniau sy'n diwallu anghenion pobl hŷn.

  Lansiwyd ail gam y Strategaeth, *Byw'n Hirach, Byw'n Well* yn 2008 ac mae'n canolbwyntio ar bedair thema strategol a thrawsbynciol allweddol:-

    - Gwerthfawrogi Pobl Hŷn – Cynnal a Datblygu Ymgysylltiad.
    - Cymdeithas sy'n Newid – Statws Economaidd Pobl Hŷn.
    - Lles ac Annibyniaeth.
    - Gwneud iddo ddigwydd – Gweithredu.

  Drwy roi'r Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn ar waith, bydd Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i ddatblygu a gweithredu amrywiaeth o bolisïau a rhaglenni gyda'r nod o gynyddu incwm, annog gwell rheolaeth ariannol a hyrwyddo cymorth ar gyfer cyfleoedd gwaith a dysgu i bobl hŷn.

- Bydd y *Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) arfaethedig* yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi strategaeth newydd ar gyfer cyfrannu at ddileu tlodi plant yng Nghymru. Bydd y strategaeth hon yn adeiladu ar strategaeth bresennol Llywodraeth y Cynulliad, *Dyfodol Teg i'n Plant*, a bydd yn pennu'r cyfeiriad strategol ar gyfer mynd i'r afael â thlodi plant yng Nghymru ac yn helpu i gyflawni'r nod o ddileu tlodi plant erbyn 2020.

- *Cymunedau yn Gyntaf* yw rhaglen flaenllaw Llywodraeth Cynulliad Cymru i fynd i'r afael ag effeithiau amddifadedd yn y cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae'r rhaglen bellach yn symud ymlaen i'w cham nesaf - yn dilyn ymgynghoriad yn 2008 - ac mae'n canolbwyntio mwy ar gymunedau yn gweithio mewn partneriaeth â darparwyr gwasanaeth. Mae Cronfa Ganlyniadau gwerth £25 miliwn ar gael i Bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf dros dair blynedd i gynorthwyo gyda phrosiectau ar y cyd.

- Mae cysylltiadau pwysig rhwng mentrau i wella iechyd y cyhoedd, atal salwch a mynd i'r afael â thlodi tanwydd. Gall tlodi tanwydd gael effeithiau sylweddol ar iechyd, felly gall mynd i'r afael â thlodi tanwydd leihau'r baich ar y system iechyd yn sylweddol yn y tymor hwy. Un enghraifft o'r ffordd y mae Llywodraeth y Cynulliad yn mynd i'r afael â hyn yw'r ymgyrch Gofal Piau Hi y Gaeaf Hwn (KWTW) sydd â'r nod o roi gwybodaeth a chymorth i bobl 65 oed a throsodd, a rhai grwpiau sy'n wynebu risg, megis pobl â

chlefyd cronig. Mae KWTW yn rhan o'r rhaglen hyrwyddo iechyd ehangach 'Heneiddio'n Dda' sy'n cael ei datblygu a'i chydgysylltu gan Age Concern Cymru a Help the Aged yng Nghymru mewn cydweithrediad â phartneriaethau cymunedol lleol. Mae KWTW yn canolbwyntio ar ffactorau endemig ac epidemig sy'n effeithio ar iechyd yn ystod misoedd y gaeaf. Ymhlith pethau eraill, mae'n rhoi cyngor a chymorth i bobl hŷn gadw'n gynnes ac aros yn iach; yn annog pobl i gael eu himiwneiddio rhag ffliw; ac yn mynd i'r afael â thlodi tanwydd drwy roi cyngor ar fesurau i sicrhau'r incwm mwyaf posibl, er enghraifft drwy gael budd-daliadau, a lleihau costau drwy hyrwyddo'r Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref (HEES) a mesurau eraill i leihau costau tanwydd, sy'n arbennig o bwysig nawr o ystyried y cynnydd a welwyd mewn prisiau tanwydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

- Cynhaliodd Llywodraeth y Cynulliad ymgynghoriad ar *'Cartrefi Cynaliadwy: Strategaeth Dai Genedlaethol i Gymru'* yn gynharach eleni. Mae gwella effeithlonrwydd y stoc bresennol o dai yn ogystal â sicrhau gwelliannau sylweddol i safonau adeiladau newydd yn elfennau allweddol o'r strategaeth. Bydd gweithredu a chynnal Safon Ansawdd Tai Cymru mewn tai cymdeithasol yn elfen bwysig o fynd i'r afael â thlodi tanwydd yn y sector tai cymdeithasol.

**Camau nesaf**

Bydd yr ymgynghoriad hwn, a'r cynigion terfynol a fydd yn deillio ohono, yn diwygio *Ymrwymiad Tlodi Tanwydd i Gymru* ac yn amlinellu dull Llywodraeth y Cynulliad o fynd ati i ddileu tlodi tanwydd a chyflawni targed 2018.

Mae'r ymgynghoriad yn disgrifio sut mae angen dod â rhaglenni tlodi tanwydd a sefydliadau cyflawni ynghyd i gyflawni targed 2018. Mae hefyd yn sôn am ddogfennau polisi allweddol eraill a fydd yn nodi amcanion a chamau gweithredu perthnasol.

Rydym yn awyddus i weithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu'r manylion cyflawni a fydd yn arwain at ddileu tlodi tanwydd yng Nghymru. Caiff y gwaith a amlygir yn yr ymgynghoriad hwn yn cael ei gyflawni mewn partneriaeth a bydd angen iddo barhau i ymateb i heriau a allai ein hwynebu rhwng nawr a 2018.

Mae crynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Effeithlonrwydd ac Arbedion Ynni wedi'i gyhoeddi ar wefan Llywodraeth y Cynulliad a bydd fersiwn terfynol o'r Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Effeithlonrwydd ac Arbedion Ynni ar gael erbyn dechrau 2010.

## 3. Beth yw Tlodi Tanwydd?

Y diffiniad o dlodi tanwydd yw gorfod gwario mwy na 10 y cant o incwm (yn cynnwys budd-dal tai) ar yr holl danwydd a ddefnyddir yn y cartref i gynnal system wresogi foddhaol.

Diffiniad Sefydliad Iechyd y Byd o system wresogi foddhaol yw 21°C yn yr ystafell fyw a 18°C mewn ardaloedd eraill, er y gall fod angen gwahanol lefelau o wres ar ddeiliaid tai ag anghenion penodol.

*C1: A ydych yn cytuno â'r diffiniad o dlodi tanwydd fel yr amlinellir yma? Rhowch dystiolaeth i gefnogi eich ymatebion.*

### 3.1 Effeithiau Tlodi Tanwydd a Byw mewn Cartref Oer ar Iechyd


Gall tlodi tanwydd gael effaith sylweddol ar iechyd a lles deiliaid tai. Gall yr effeithiau gynnwys:-

- Effeithiau uniongyrchol ar iechyd yn cynnwys cynnydd mewn salwch anadlol yn cynnwys asthma.
- Cynnydd mewn pwysedd gwaed a risg o drawiad ar y galon a strôc (clefyd cardiofasgwlaidd).
- Mwy o achosion o lithro, baglu a chwympo, yn enwedig ymhlith pobl hŷn oherwydd gall oerfel leihau symudedd ac achosi i symptomau arthritis waethygu.
- Ynysu cymdeithasol yn arwain at ddiffygion o ran iechyd meddwl oherwydd amharodrwydd i wahodd ffrindiau i mewn i gartref oer, llaith.
- Effeithiau anuniongyrchol ar iechyd gan fod gan ddeiliaid tai lai o arian ar gyfer bwyd, treuliau dyddiol eraill a gweithgarwch cymdeithasol.
- Straen a materion iechyd meddwl a ysgogir gan bryderon ynghylch biliau a/neu ddyled ynni.
- Effeithiau ar addysg lle mai dim ond un ystafell sydd wedi'i gwresogi'n gywir o bosibl, sy'n golygu nad oes lle tawel, cynnes i astudio ynddo neu bod lefelau uwch o absenoldeb oherwydd salwch.
- Effeithiau ar yr economi o ganlyniad i lefelau cynyddol o salwch. Gall y ffaith bod llai o arian yn cael ei wario ar filiau ynni gael effeithiau cadarnhaol ar adfywio lleol am fod gan bobl fwy o arian i'w wario yn yr economi leol.
- Mwy o bwysau ar wasanaethau iechyd a gofal a mwy o gost iddynt.

### 3.2 Ffeithiau sy’n Gysylltiedig â Marwolaethau Ychwanegol y Gaeaf (EWDs)

Marwolaethau Ychwanegol y Gaeaf (EWDs) yw nifer y marwolaethau ychwanegol rhwng mis Rhagfyr a mis Mawrth o’i gymharu â chyfnodau cyfatebol ar adegau eraill o’r flwyddyn. Mae dau ffactor penodol sy’n dylanwadu ar farwolaethau ychwanegol y gaeaf; ffactorau endemig, megis tlodi tanwydd a chyflyrau amgylcheddol megis oerfel; a ffactorau epidemig, megis ffliw a firysau eraill. Mae canlyniadau’r ffactorau hyn yn fwy sylweddol o lawer ymhlith pobl hŷn o ran yr effeithiau negyddol ar iechyd o gymharu â grwpiau oedran eraill o fewn y boblogaeth fel y dangosir yn Siart 1.

Siart 1: Marwolaethau ychwanegol y gaeaf fesul grŵp oedran, Cymru, 1991/1992 i 2007-2008




Ffynhonnell: Marwolaethau Ychwanegol y Gaeaf yng Nghymru, 2007/2008, Y Gyfarwyddiaeth Ystadegol, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays. Caerdydd, CF10 3NQ. www.cymru.gov.uk/ystadegau

Mae’r canlynol yn hysbys:-

- Ychydig iawn o’r marwolaethau ychwanegol hyn sydd o ganlyniad i hypothermia; mae 50 y cant ohonynt o ganlyniad i glefyd cardiofasgwlaidd, a 30 y cant o ganlyniad i glefyd anadlol (yn cynnwys y ffliw). Mae’r 20 y cant sy’n weddill o ganlyniad i achosion eraill megis damweiniau a diffyg fitamin C a D.
- Bydd achosion marwolaethau yn amrywio ar adegau gwahanol ar ôl diwrnod oer; mae trawiadau ar y galon yn fwy tebygol ddau ddiwrnod wedyn, strôc yn fwy tebygol bum diwrnod wedyn a salwch anadlol yn fwy tebygol 12 diwrnod wedyn.
- Mae marwolaethau ychwanegol yn fwy tebygol ymhlith deiliaid tai mewn cartrefi rhent preifat neu gartrefi perchen-ddeiliaid, tai a adeiladwyd cyn 1850 a chartrefi llaith.
- Mae cydberthynas linellog rhwng tymheredd a marwoldeb, gyda chynnydd o 1.4 y cant mewn marwoldeb am bob 1ºC y mae’r tymheredd yn gostwng o dan 18 ºC.
- Ceir nifer sylweddol lai o EWDs mewn gwledydd lle mae’r tywydd yn oer iawn (islaw sero) am gyfnod hir megis gwledydd Sgandinafia a Rwsia o’i gymharu â’r DU.

Yng Nghymru (yn seiliedig ar y ffigurau diweddaraf ar gyfer gaeaf 2007/08)

- Cafwyd tua 1,500 o EWDs, saith y cant yn fwy nag yn ystod y gaeaf blaenorol (1,400).
- Roedd dros bedair rhan o bump (87 y cant) o EWDs yn ymwneud â phobl 75 oed neu drosodd.
- Mae'r cyfraddau uchaf o EWDs yn ymwneud â phobl 85 oed neu drosodd. Roedd y gyfradd yn llai nag un fesul 10,000 o'r boblogaeth ar gyfer y rheini rhwng 0-64 oed ond roedd yn cynyddu i 33 fesul 10,000 ymhlith y rheini rhwng 75-84 oed a 100 fesul 10,000 ymhlith y rheini sy'n 85 oed neu drosodd.
- Mae Cymru yn dilyn tuedd debyg i ardaloedd eraill yn y DU.

Gellir gweld tueddiadau EWDs yng Nghymru o 1991/1992 i 2007/2008 yn Siart 1.

# 4. Amcanion Tlodi Tanwydd a'r cynnydd yn eu herbyn

## 4.1 Ein hamcanion tlodi tanwydd

Fel y nodir yn *Deddf Cartrefi Cynnes ac Arbed Ynni - Ymrwymiad Tlodi Tanwydd i Gymru*, ein hamcanion tlodi tanwydd, cyhyd ag y bo'n rhesymol ymarferol, yw y caiff tlodi tanwydd ei ddileu:-


- Ymhlith aelwydydd sy'n agored i niwed erbyn 2010.
- Mewn tai cymdeithasol erbyn 2012.
- Erbyn 2018, ni fydd unrhyw un yng Nghymru yn byw mewn tlodi tanwydd.

Mae'r amcanion hyn yn weithredol o hyd. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn datblygu Cynllun Monitro a Gwerthuso a fydd yn amlinellu sut yr adroddir ar y cynnydd tuag at gyflawni'r targedau hyn yn fwy aml (gweler Adran 7). Byddwn hefyd yn adolygu data pan fydd ar gael er mwyn sicrhau bod ein mesurau yn targedu'r rheini mewn tlodi tanwydd yn effeithiol.

## 4.2 Cynnydd yn erbyn amcanion

Pasiwyd y Ddeddf Cartrefi Cynnes ac Arbed Ynni yn 2000, a chyhoeddwyd Strategaeth Tlodi Tanwydd gyntaf Cymru yn 2003. Hyd at 2004, gwnaed cynnydd da o ran mynd i'r afael â thlodi tanwydd.

*Siart 2: Gostyngodd tlodi tanwydd hyd at 2004, ond mae wedi codi ers hynny*




*Ffynonellau: 6[ed] Adroddiad Blynyddol Strategaeth Tlodi Tanwydd y DU 2008; Tlodi Tanwydd yng Nghymru 2004 - prif ystadegau tlodi tanwydd wedi'u modelu ar gyfer 2005 a 2006*

Fodd bynnag, gwyrdrowyd y cynnydd cadarnhaol hwn yn 2004. Awgrymodd data o arolwg eiddo Byw yng Nghymru yn 2004, a gwaith modelu dilynol, fod nifer yr aelwydydd yng Nghymru mewn tlodi tanwydd wedi cynyddu’n sylweddol (fel y nodir yn Nhabl 3).

Tabl 3: Niferoedd amcangyfrifedig o aelwydydd mewn tlodi tanwydd

| Blwyddyn | Amcangyfrif o gyfanswm nifer yr aelwydydd mewn tlodi tanwydd | Amcangyfrif o nifer yr aelwydydd mewn tlodi tanwydd |
|---|---|---|
| 2004 | 134,000 | 115,000 |
| 2005 | 166,000 | 142,000 |
| 2006 | 240,000 | 209,000 |

*Ffynhonnell: Tlodi Tanwydd yng Nghymru 2004 - prif ystadegau tlodi tanwydd wedi'u modelu ar gyfer 2005 a 2006*

Er bod rhaglenni Llywodraeth y DU a Llywodraeth y Cynulliad wedi helpu i sicrhau bod perfformiad ynni cartrefi wedi parhau i gynyddu ers 2000 (gweler Tabl 4), mae prisiau ynni wedi cynyddu'n sylweddol, yn enwedig ers 2004 (gweler Siart 5). Mae'r duedd i gynyddu costau tanwydd yn cyfateb i'r cynnydd mewn tlodi tanwydd ers 2004.


*Tabl 4: Gweithgarwch effeithlonrwydd ynni*

| | HEES (aelwydydd a gynorthwyir) | Rhwymedigaethau cyflenwyr |
|---|---|---|
| 2001/2 | 11,021 | dd/g |
| 2002/3 | 14,466 | 11,419* |
| 2003/4 | 12,572 | 26,525* |
| 2004/5 | 13,149 | 53,969* |
| 2005/6 | 9,834 | Disgwylir data yn ddiweddarach yn 2009 |
| 2006/7 | 13,739 | Disgwylir data yn ddiweddarach yn 2009 |
| 2007/8 | 18,647 | Disgwylir data yn ddiweddarach yn 2009 |
| 2008/9 | 15,199 | Disgwylir data yn 2010 |

**Gosodiadau cwmnïau ynni fel y'u nodir gan Gronfa Ddata Effeithlonrwydd Ynni Cartref yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni*

Er gwaethaf y dirwasgiad, mae'r incwm sydd gan aelwydydd i'w wario wedi'i gynnal yn gymharol dda, gyda chymorth chwyddiant sy’n gostwng, sydd wedi galluogi rhai aelwydydd i ymdopi â'r cynnydd mewn prisiau tanwydd. Fodd bynnag, nid yw hyn yn gymwys i bob aelwyd. Yn benodol, bydd yr effaith a gafodd colledion swyddi ar aelwydydd yn ystod y dirwasgiad wedi bod yn andwyol. Mae'r farchnad lafur yng Nghymru wedi dirywio'n eithaf sydyn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gyda chyflogaeth yn disgyn 2.9 y cant, diweithdra yn codi 2.6 y cant ac anweithgarwch yn codi 0.9 y cant. Mae’r cynnydd mewn diweithdra wedi cael yr effaith fwyaf ar gymunedau sy’n agored i niwed sydd wedi gweld lefelau uchel o ddiweithdra a thlodi yn y gorffennol, gan roi pwysau ar eu gallu i osgoi tlodi tanwydd.


*Siart 5: Prisiau cynyddol tanwydd*




*Ffynhonnell: Tueddiadau a Phrisiau Ynni BERR Awst 2009*

Er gwaethaf y ffaith bod prisiau tanwydd wedi bod yn gostwng yn ystod y misoedd diwethaf (sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd economaidd yn 2008/09), y duedd sy'n debygol o gael ei gweld yn yr hirdymor yw cynnydd parhaus mewn prisiau.

**Siart 6**: *Rhagwelir y bydd prisiau ynni yn parhau i gynyddu hyd at 2018*




*Ffynhonnell: Canllawiau'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd ar werthuso ac arfarnu'r polisi ar nwyon tŷ gwydr yn adrannau'r Llywodraeth, Mai 2009*

Caiff amcangyfrifon o lefel tlodi tanwydd yng Nghymru yn 2008 eu cyhoeddi yn 2010. Bydd y data yn ein helpu i ddeall sut mae gwelliannau mewn effeithlonrwydd ynni, cynnydd mewn prisiau tanwydd a newidiadau mewn incwm wedi effeithio ar dlodi tanwydd yn cynnwys p'un a fu unrhyw newidiadau sylweddol yn ei ddosbarthiad ymhlith poblogaeth Cymru. Byddwn yn adolygu ein dull o weithredu pan fydd y data hwn ar gael.

Ceir rhagor o fanylion am ein cynlluniau i wneud mwy o waith monitro a gwerthuso er mwyn llywio ein polisïau ar dlodi tanwydd yn Adran 7.

## 4.3 Tlodi tanwydd ledled Cymru yn 2004[1]

### Aelwydydd sy’n agored i niwed

Yn 2004, amcangyfrifwyd bod 134,000 o aelwydydd yng Nghymru mewn tlodi tanwydd. O’r aelwydydd hyn, gellid dosbarthu 85 y cant ohonynt (115,000) yn aelwydydd sy’n agored i niwed[2]. Awgrymodd gwaith modelu a gwblhawyd yn 2007 fod 243,000 o aelwydydd mewn tlodi tanwydd erbyn 2006, ac roedd cyfran debyg o’r rheini yn aelwydydd a oedd yn agored i niwed. Mae hyn yn golygu bod dileu tlodi tanwydd mewn aelwydydd sy’n agored i niwed erbyn 2010 yn cyfateb i

[1] Data o adroddiad Tlodi Tanwydd yng Nghymru 2004 a gyhoeddwyd yn 2007 ac ystadegau tai cymdeithasol yn seiliedig ar arolwg Byw yng Nghymru 2008.
[2] Aelwydydd sy’n agored i niwed yw’r rheini sydd ag aelod 60 oed neu drosodd, gydag unrhyw blant dibynnol o dan 16 oed neu aelod sydd wedi bod yn sâl neu’n anabl yn yr hirdymor.

ostyngiad o 85 y cant mewn tlodi tanwydd. Mae'n bosibl y gallai'r cynnydd mewn prisiau tanwydd ers 2004 fod wedi arwain at fwy o gynnydd yn nifer yr aelwydydd sydd mewn tlodi tanwydd ond nad ydynt yn agored i niwed o'u cymharu ag aelwydydd mewn tlodi tanwydd sy'n agored i niwed. Caiff hyn ei ystyried fel rhan o'r dadansoddiad o dlodi tanwydd yn 2008 a gaiff ei gyhoeddi yn 2010.

**Difrifoldeb tlodi tanwydd**

Gyda phrisiau ynni yn arwain at gynnydd yn nifer yr aelwydydd mewn tlodi tanwydd, bydd yn bwysig ein bod yn canolbwyntio ein hymdrechion a'n buddsoddiad yn y lle cyntaf ar y rheini yr effeithir arnynt fwyaf. Yn 2004, amcangyfrifwyd bod 38 y cant o aelwydydd mewn tlodi tanwydd yn gwario mwy na 15 y cant o'u hincwm ar filiau tanwydd. Roedd gan yr aelwydydd hyn incwm cartref cyfartalog is ac amcangyfrifwyd eu bod yn gwario mwy ar danwydd ar gyfartaledd nag aelwydydd oedd yn gwario rhwng 10 a 15 y cant o'u hincwm ar filiau tanwydd. Amcangyfrifwyd bod cyfran is o aelwydydd sy'n agored i niwed ac sydd mewn tlodi tanwydd mewn tlodi tanwydd difrifol (35 y cant) o'u cymharu ag aelwydydd mewn tlodi tanwydd nad ydynt yn agored i niwed (53 y cant), er bod nifer yr aelwydydd sydd mewn tlodi tanwydd difrifol yn uwch ymhlith aelwydydd sy'n agored i niwed gan fod y mwyafrif o aelwydydd mewn tlodi tanwydd yn agored i niwed. Byddwn yn ymgymryd â gwaith dadansoddi pellach o'r mathau o aelwydydd sydd mewn tlodi tanwydd i'n helpu i'w targedu'n effeithiol pan fydd amcangyfrifon o dlodi tanwydd yn 2008 ar gael.

**Daliadaeth**

Yn 2004, amcangyfrifwyd bod y rhan fwyaf o aelwydydd mewn tlodi tanwydd yn y sector perchen-ddeiliaid (72 y cant) gyda'r aelwydydd sy'n weddill wedi'u lledaenu'n gyfartal rhwng y sector rhent preifat a'r sector tai cymdeithasol. Fodd bynnag, gan fod y rhan fwyaf o aelwydydd yng Nghymru yn y sector perchen-ddeiliaid, nid yw'r rhan fwyaf o aelwydydd sy'n berchen ar eu cartref eu hunain mewn tlodi tanwydd (89 y cant). Yn y sector tai cymdeithasol, amcangyfrifwyd bod wyth y cant mewn tlodi tanwydd yn 2004 ac amcangyfrifwyd bod 17 y cant o denantiaid preifat mewn tlodi tanwydd. Mae llai o enillion yn debygol o gael eu gwneud o wella perfformiad ynni cartrefi yn y sector tai cymdeithasol gan fod effeithlonrwydd ynni eisoes yn dueddol o fod yn well nag mewn sectorau eraill (yn bennaf oherwydd gofynion Safon Ansawdd Tai Cymru), felly mae cyngor a chymorth ar ddefnyddio ynni yn y cartref, cael y ddêl orau ar eich ynni a gwneud y gorau o'ch incwm yn debygol o fod yn bwysig wrth fynd i'r afael â thlodi tanwydd ymhlith tenantiaid tai cymdeithasol. Mae'n bosibl y gallai'r cynnydd mewn prisiau tanwydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf fod wedi arwain at gynnydd anghymesur mewn tlodi tanwydd yn y sector tai cymdeithasol gan fod cyfran uwch o denantiaid ar incwm isel iawn a gallent felly gael eu gwthio i mewn i dlodi tanwydd yn haws.

**Oedran a chyfansoddiad yr aelwyd**

Amcangyfrifwyd mai pensiynwyr oedd cyfran uchaf y rheini mewn tlodi tanwydd yn 2004 gyda 41 y cant o aelwydydd mewn tlodi tanwydd yn bensiynwyr unigol a 17 y cant yn bensiynwyr a oedd yn gyplau priod. Fodd bynnag, cynrychiolwyd 26 y cant o aelwydydd mewn tlodi tanwydd gan aelwydydd un person nad oeddent yn bensiynwyr. Mae bod yn aelwyd un person neu'n aelwyd rhiant unigol yn well

rhagfynegydd o dlodi tanwydd, gydag amcangyfrif bod 23 y cant o aelwydydd pensiynwyr unigol, 21 y cant o aelwydydd rhiant unigol nad oeddent yn bensiynwyr ac 13 y cant o aelwydydd rhiant unigol mewn tlodi tanwydd yn 2004. Mae hyn yn cymharu ag wyth y cant o bensiynwyr sy'n gyplau priod ac aelwydydd dau oedolyn nad oeddent yn bensiynwyr heb blant, a phump y cant o aelwydydd dau oedolyn gyda phlant.

Ar adeg dirwasgiad, mae pensiynwyr yn ymdopi'n weddol dda fel arfer gan eu bod yn cynnal ei hincwm sefydlog tra bod rhannau eraill o'r gymdeithas yn cael eu heffeithio gan golledion swyddi a thoriadau mewn cyflog. Mae hyn yn golygu y gellid gweld mwy o gynnydd mewn tlodi tanwydd ymhlith deiliaid tai nad ydynt yn bensiynwyr.

## 5. Camau i fynd i'r afael â thlodi tanwydd

**Cymryd camau mewn ymateb i'r cynnydd hyd yn hyn**

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod bod y cynnydd sylweddol mewn prisiau tanwydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi cael effaith ar nifer yr aelwydydd yng Nghymru sy'n byw mewn tlodi tanwydd. Mae'r ffactorau hyn, i raddau helaeth, y tu hwnt i reolaeth Llywodraeth y Cynulliad ac maent yn golygu bod cyflawni targed 2010 yn heriol iawn. Fodd bynnag, parhawn i fod yn benderfynol o wneud popeth sy'n rhesymol bosibl i leddfu tlodi tanwydd yng Nghymru.

Ein dull arfaethedig o weithredu yw:-

- Pan fydd gan Lywodraeth y Cynulliad bwerau i gymryd camau a fydd yn cyfrannu'n uniongyrchol at leddfu tlodi tanwydd, byddwn yn sicrhau bod y cymorth a'r arian a rown yn cael eu targedu at y rhai mwyaf anghenus.
- Hyrwyddo'r broses o gydgysylltu cymorth, nid yn unig o ran y darparwyr gwahanol sy'n helpu i fynd i'r afael â thlodi plant ond hefyd drwy ddod o hyd i ffyrdd o alluogi gwasanaethau a rhaglenni eraill i ategu camau a fydd yn cynorthwyo i leddfu tlodi tanwydd.
- Gweithio gydag eraill i nodi a thargedu'r aelwydydd sydd fwyaf agored i niwed yn gyntaf a chynorthwyo'r aelwydydd hynny i gael gafael ar gymorth i fynd i'r afael â lefelau incwm, prisiau ynni a pherfformiad ynni eu heiddo. Bydd llawer o'r cymorth hwn yn cael ei roi gan sefydliadau ar wahân i Lywodraeth y Cynulliad ond ein nod yw galluogi mynediad a chefnogi gwaith cydgysylltu.
- Pan fydd gan sefydliadau eraill y pwerau i weithredu, er enghraifft mewn perthynas â phrisiau ynni, lefelau incwm a'r system budd-daliadau, byddwn yn sicrhau bod Llywodraeth y Cynulliad yn chwarae rhan ragweithiol yn y broses o ddylanwadu ar benderfyniadau.
- Sicrhau bod rhaglenni sy'n anelu at wella effeithlonrwydd ynni cartref yn arwain at welliannau hirdymor yn ansawdd y stoc dai ac yn lleihau ei hôl troed.

Mae'r ymgynghoriad hwn hefyd yn mynd i'r afael â'r angen am ddata gwell a mwy amserol ar dlodi tanwydd; mae hyn yn bwysig er mwyn sicrhau bod mesurau yn cael eu cyflwyno'n well ledled Cymru.

| |
|---|
| *C2: A ydych yn cytuno â'r dull cyffredinol arfaethedig hwn o weithredu?* |

**Ffactorau sy'n cyfrannu at dlodi tanwydd a'r dulliau dylanwadol sydd ar gael i ni**

**Incwm**

Incwm yw cyfanswm yr arian y mae aelwyd yn ei gael dros gyfnod penodol o amser. Gall incwm gynnwys arian a geir o enillion, hunangyflogaeth, budd-daliadau,

pensiynau galwedigaethol a buddsoddiadau, ar ôl didynnu treth incwm, cyfraniadau Yswiriant Gwladol, trethi llywodraeth leol a rhai didyniadau eraill.

Wrth asesu a yw aelwyd mewn tlodi tanwydd, rydym yn edrych ar gyfanswm yr arian a wariwyd ar yr holl danwydd i'r cartref fel canran o Incwm Llawn. Incwm Llawn yw cyfanswm incwm yr aelwyd, yn cynnwys Budd-dal Tai neu Gymhorthdal Incwm ar gyfer Llog Morgais (ISMI). Mae sawl ffactor yn dylanwadu ar incwm, yn cynnwys statws cyflogaeth, cyflog neu fudd-daliadau lles a dderbynnir a nifer y dibynyddion.

Nodir y dulliau allweddol sydd ar gael i ddylanwadu ar incwm yn y tabl canlynol:

| **Dull dylanwadol** | **Cwmpas Llywodraeth y DU i weithredu** | **Cwmpas Llywodraeth y Cynulliad i weithredu** |
|---|---|---|
| System budd-daliadau | O fewn rheolaeth uniongyrchol Llywodraeth y DU a'r potensial i gael effaith ar unwaith | Anuniongyrchol yn unig gyda rhywfaint o botensial i gael effaith gyflym:<br>• Dylanwadu ar Lywodraeth y DU<br>• Cynorthwyo pobl i gael y budd-daliadau perthnasol drwy roi cyngor/gwybodaeth iddynt |
| Annog pobl i gael swyddi o ansawdd gwell â thâl uwch | Anuniongyrchol:<br>• Polisi economaidd cyffredinol | Anuniongyrchol yn unig:<br>• Cymorth i wella hyfforddiant a sgiliau<br>• Cymorth i ysgogi busnesau a chreu swyddi |

**Faint mae pobl yn ei dalu am ynni**

Mae eu cyflenwr ynni, eu tariff, y math o danwydd a ddefnyddiant a’r opsiynau sydd ar gael iddynt yn dylanwadu ar y cyfanswm y mae unigolyn neu aelwyd yn ei dalu am filiau ynni'r cartref.

Nodir y dulliau allweddol sydd ar gael i ddylanwadu ar y pris y maent yn ei dalu am eu hynni yn y tabl canlynol:

| **Dull dylanwadol** | **Cwmpas Llywodraeth y DU i weithredu** | **Cwmpas Llywodraeth y Cynulliad i weithredu** |
|---|---|---|
| Prisiau ynni cyfanwerthol | Uniongyrchol:<br>• Trethiant<br>Anuniongyrchol:<br>• Marchnad ynni gystadleuol | Anuniongyrchol yn unig:<br>• Dylanwadu ar Lywodraeth y DU |
| Tariffau | Dull anuniongyrchol yn hanesyddol ond mae Llywodraeth y DU bellach yn cymryd camau uniongyrchol i gyflwyno cymorth prisiau cymdeithasol mandadol a mwy o eglurder ynghylch rôl Ofgem<br>Mae Ofgem yn monitro'r farchnad ddomestig a gall newid y system reoliadau y mae cwmnïau ynni yn pennu tariffau yn unol â hi | Anuniongyrchol yn unig:<br>• Dylanwadu ar Lywodraeth y DU, Ofgem a chwmnïau ynni<br>• Cynorthwyo pobl i ddod o hyd i dariffau gwell/mwy addas drwy roi cyngor a gwybodaeth yn uniongyrchol neu gyda phartneriaid |
| Tanwydd a ddefnyddir ar gyfer gwresogi | Anuniongyrchol yn unig:<br>• Dylanwadu ar y broses reoleiddio (ar gyfer nwy naturiol a thrydan yn unig) drwy Ofgem | Anuniongyrchol:<br>• Cynorthwyo neu annog pobl i gael cyngor ar opsiynau a chostau<br>• Casglu a rhannu gwybodaeth am yr opsiynau sydd ar gael i'r rheini sy'n dibynnu ar olew ac LPG am wres<br>Uniongyrchol<br>• Cymorth ariannol i newid i danwydd arall |

| Dull dylanwadol | Cwmpas Llywodraeth y DU i weithredu | Cwmpas Llywodraeth y Cynulliad i weithredu |
|---|---|---|
| Ffynonellau ynni cynaliadwy | Uniongyrchol:<br><br>• Cynorthwyo gyda'r broses o ddatblygu technolegau ynni adnewyddadwy<br>• Cynyddu capasiti'r grid trydan<br>• Rhoi cymorth ariannol i ddeiliaid tai osod mesurau effeithlonrwydd ynni yn cynnwys technolegau ynni adnewyddadwy<br>• Newidiadau i Reoliadau Adeiladu (tan fis Rhagfyr 2011 os cânt eu cymeradwyo gan Senedd y DU)<br>• Tariff Bwydo i Mewn Arfaethedig a Chymhelliant Gwres Adnewyddadwy | Uniongyrchol:<br><br>• Rhoi cymorth ariannol i ddeiliaid tai osod mesurau effeithlonrwydd ynni yn cynnwys technolegau ynni adnewyddadwy<br>• Newidiadau i Reoliadau Cynllunio<br>• Newidiadau i Reoliadau Adeiladu o fis Rhagfyr 2011 os cânt eu cymeradwyo gan Senedd y DU |

**Perfformiad eiddo o ran ynni**

Mae hyn yn ymwneud â pha mor ynni-effeithlon yw eiddo a'i system wresogi ac felly faint o ynni, ac arian, sydd eu hangen i'w gadw'n gynnes. Mae nodweddion adeiladu'r eiddo yn dylanwadu ar y perfformiad hwn.

Mae'n ymwneud hefyd â sut y mae deiliaid tai yn defnyddio ynni yn eu cartrefi. Gall arfer neu angen ddylanwadu ar y perfformiad (e.e. efallai y bydd angen i rai pobl ddefnyddio eu system wresogi am fwy o amser yn ystod y dydd).

Nodir y dulliau dylanwadol allweddol sydd ar gael i wella perfformiad ynni cartrefi a lleihau'r ynni a ddefnyddir yn y tabl canlynol:

| Dull dylanwadol | Cwmpas Llywodraeth y DU i weithredu | Cwmpas Llywodraeth y Cynulliad i weithredu |
|---|---|---|
| Newid ymddygiad defnyddwyr | Anuniongyrchol:<br>• Hyrwyddo buddiannau technolegau carbon isel, ynni isel ym mholisïau a rhaglenni Llywodraeth y DU<br>• Ariannu'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni (EST) i roi cyngor | Anuniongyrchol:<br>• Hyrwyddo buddiannau technolegau carbon isel, ynni isel ym mholisïau a rhaglenni Llywodraeth y Cynulliad<br>• Sicrhau bod y cyngor a roddir yn cydnabod anghenion grwpiau gwahanol<br>• Ymgyrchoedd a mentrau newid ymddygiad |
| Gwella perfformiad ynni cartrefi | Uniongyrchol:<br>• Pennu'r Targed Lleihau Allyriadau Carbon (CERT), y Rhaglen Arbed Ynni Gymunedol (CESP) a rhwymedigaethau cyflenwyr, a weithredir gan gwmnïau ynni<br>• Ariannu'r Rhaglen Adeiladau Carbon Isel ledled y DU<br>• Newidiadau i Reoliadau Adeiladu (tan fis Rhagfyr 2011 os cânt eu cymeradwyo gan Senedd y DU) | Uniongyrchol:<br>• Darparu arian ar gyfer gwelliannau ynni drwy'r Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref (HEES) a'i olynydd<br>• Datblygu rhaglen gwella ynni yn seiliedig ar ardal<br>• Safon Ansawdd Tai Cymru.<br>• Cynlluniau Adnewyddu Cymdogaethau<br>• Buddsoddiad a safonau tai cymdeithasol<br>• Newidiadau i Reoliadau Adeiladu o fis Rhagfyr 2011 os cânt eu cymeradwyo gan Senedd y DU<br>Anuniongyrchol:<br>Dylanwadu ar Lywodraeth y DU, Ofgem a chwmnïau ynni, yn cynnwys cynyddu'r arian sydd ar gael o ffynonellau eraill a gwneud y defnydd gorau posibl o Dystysgrifau Perfformiad Ynni (EPCs) |

*C3: A ydym wedi nodi'r holl ddulliau priodol?*

## 6. Mynd i'r Afael â Thlodi Tanwydd yng Nghymru

Mae'r bennod hon yn nodi sut mae Llywodraeth y Cynulliad yn bwriadu defnyddio'r dulliau dylanwadol sydd ar gael iddi i ddylanwadu, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, ar y ffactorau allweddol sy'n cyfrannu at dlodi tanwydd.

### 6.1 Cyngor, cymorth ac atgyfeiriadau

Un o'r ffactorau sy'n allweddol er mwyn sicrhau bod tlodi tanwydd yn cael ei ddileu yng Nghymru yw'r cyngor sydd ar gael i bobl. Mae angen sicrhau bod cyngor ar gael yn hawdd, fel bod deiliaid tai yn gallu manteisio i’r eithaf arno i'w helpu i leihau eu biliau ynni a gwneud y gorau posibl o'u hincwm. Mae cyngor eisoes ar gael yn eang o nifer o ffynonellau. Fodd bynnag, mae angen sicrhau bod y cyngor hwn yn cael ei gydgysylltu'n well, yn fwy hygyrch ac yn cael ei roi yn y fformat mwyaf addas i'r rhai y mae angen cyngor arnynt. Mae angen pennu pwynt cyswllt canolog clir ar gyfer atgyfeiriadau a chyngor er mwyn sicrhau bod pobl yn gallu cael gafael ar yr ystod lawn o gymorth sydd ar gael iddynt.

Felly, rydym am greu 'gwasanaeth canolog’ a fydd yn cydgysylltu’r gallu i gael gafael ar y canlynol a chael atgyfeiriadau iddynt ac oddi wrthynt:-

- Darparwyr cyngor eraill.
- Asiantaethau cymorth lleol.
- Arian gan gwmnïau ynni.
- Pecynnau gwella ynni Llywodraeth y Cynulliad.

Bydd cyrraedd y bobl gywir i wneud yn siŵr y gallant gael gafael ar y cyngor a’r cymorth sydd ar gael yn un o ganlyniadau hanfodol rhwydwaith atgyfeirio effeithiol. Mae cyfleoedd sylweddol i weithio gyda’r amrywiaeth eang o sefydliadau sy’n dod i gysylltiad â deiliaid tai sy’n agored i niwed yn ddyddiol er mwyn cyflawni hyn.

Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn gwneud y canlynol:-

- Sefydlu gwasanaeth canolog effeithiol ar gyfer cyngor ac atgyfeiriadau a fydd wrth wraidd y broses o gyflwyno rhaglenni tlodi tanwydd ac effeithlonrwydd ynni newydd.
- Gweithio gyda darparwyr iechyd a gwasanaethau cymdeithasol (yn cynnwys awdurdodau lleol) i sefydlu dulliau atgyfeirio i gael cyngor a chymorth ar dlodi tanwydd.
- Ni fydd yn cymeradwyo llinellau lluosog sy'n rhoi cyngor ar effeithlonrwydd ynni.
- Bydd yn parhau i gydnabod y gall rhai sefydliadau fod yn y sefyllfa orau i roi cymorth ar faterion penodol neu i grwpiau penodol a bydd yn sicrhau bod y cyfoeth hwn o arbenigedd a'r ymddiriedaeth sydd gan bobl mewn sefydliadau penodol yn cael eu gwerthfawrogi a'u hymgorffori mewn rhwydwaith atgyfeirio.

- Cefnogi mentrau sy’n rhoi cyngor a chymorth i helpu pobl i gadw’n gynnes ac yn iach yn eu cartrefi, er enghraifft, Gofal Piau Hi y Gaeaf Hwn.

Byddwn yn gweithio gydag eraill i:-

- Nodi anghenion hyfforddi a dod o hyd i ffyrdd o ddiwallu'r anghenion hyn ar y cyd.
- Dadansoddi'r mathau o ymholiadau a dderbynnir, y cyngor y gofynnir amdano a bylchau a defnyddio hyn i wella'r cyngor a'r cymorth sydd ar gael.

| *C4: A ydych yn cytuno â'r dull arfaethedig o weithredu mewn perthynas â chyngor a chymorth?* |
|---|

## 6.2 Cydweithio

Mae tlodi plant yn gofyn am gamau effeithiol gan amrywiaeth eang o bartneriaid yn cynnwys Llywodraeth y DU, llywodraeth leol, Ofgem, cyflenwyr a chynhyrchwyr ynni, y trydydd sector, Cymdeithasau Tai, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, landlordiaid preifat, y Ganolfan Cyngor ar Bopeth, y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru, sefydliadau sector preifat, yr Heddlu, y Gwasanaethau Tân ac Achub a deiliaid tai eu hunain.

Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn sicrhau ei bod yn gweithio ym mhob adran fewnol er mwyn sicrhau y gwneir y defnydd gorau o gyfleoedd i nodi'r rheini mewn tlodi tanwydd a'u cynorthwyo. Ymhlith yr adrannau allweddol sydd â diddordeb mae Adran yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol; yr Adran Llywodraeth Leol a Chyfiawnder Cymdeithasol; ac Adran yr Economi a Thrafnidiaeth yn cynnwys y tîm Adfywio. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn sicrhau bod y Grŵp Trawsadrannol ar Dlodi yn mynd i’r afael â thlodi tanwydd. Bydd hyn yn sicrhau yr eir i’r afael â thlodi tanwydd ym mhob un o adrannau Llywodraeth y Cynulliad ac y caiff ei integreiddio â meysydd eraill o dlodi.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod bod gweithio gydag eraill yn hanfodol ac mae wedi sefydlu neu'n cymryd rhan yn y fforymau canlynol er mwyn hwyluso hyn:

Gyda phob partner allweddol yng Nghymru:-

- Grŵp Cynghori ar Dlodi Tanwydd (FPAG) – fe’i sefydlwyd yn 2004 a phenodwyd Cadeirydd annibynnol ym mis Hydref 2008. Mae'r grŵp yn cynnwys uwch gynrychiolwyr rhanddeiliaid o asiantaethau statudol, Llywodraeth Leol, sefydliadau cymunedol a sefydliadau sector preifat ac mae'n cyfarfod yn chwarterol.

  Prif rôl FPAG yw:-

  - Ystyried y broses o fonitro'r Strategaeth Tlodi Tanwydd a chyflwyno adroddiadau arni.

- Archwilio effeithiolrwydd polisïau presennol Llywodraeth y Cynulliad wrth leihau tlodi tanwydd.
- Archwilio rhwystrau at leihau tlodi tanwydd.
- Ystyried yr angen am bolisïau a mentrau ychwanegol i gyflawni targedau Llywodraeth y Cynulliad.
- Rhoi cyngor ar yr ymgysylltu rhwng chwaraewyr allweddol wrth fynd i'r afael â thlodi tanwydd.
- Nodi meysydd lle y gall Llywodraeth y Cynulliad gomisiynu ymchwil i dlodi tanwydd.

- National Energy Action (NEA) Cymru - mae Llywodraeth y Cynulliad yn ariannu'r NEA yng Nghymru i: gefnogi camau i fynd i'r afael â thlodi tanwydd; darparu hyfforddiant; a chyfrannu at y sylfaen dystiolaeth ar dlodi tanwydd yng Nghymru. Mae'r NEA yng Nghymru yn ymgysylltu â rhanddeiliaid, yn enwedig ar lefel leol, ac yn sicrhau bod Llywodraeth y Cynulliad yn dod i wybod am eu safbwyntiau.

- Mae gan awdurdodau lleol rôl bwysig i'w chwarae o ran mynd i'r afael â thlodi tanwydd. Mae eu staff rheng flaen, lleol mewn sefyllfa ddelfrydol i nodi pobl mewn tlodi tanwydd a'u hatgyfeirio at y rhaglenni cymorth amrywiol. Bydd yn hanfodol bod gan awdurdodau lleol ddealltwriaeth dda o'r ffordd y gallant weithio gyda'r gwasanaeth canolog. Er mwyn hwyluso hyn, byddwn yn datblygu rôl Swyddog Ymgysylltu Awdurdod Lleol er mwyn sicrhau bod Awdurdodau Lleol yn ymgysylltu â'r gwasanaethau canolog.

Gyda chyflenwyr:-

- Bord Gron ar Ynni – sefydlwyd yn 2008 gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai. Caiff cyfarfodydd y Ford Gron, a gynhelir bob chwe mis, eu cadeirio gan Gadeirydd FPAG gyda'r Gweinidog yn bresennol.

  Mae cynrychiolwyr rhanddeiliaid yn cynnwys y chwe chyflenwr ynni mawr (Centrica, Scottish & Southern, Scottish Power, RWE NPower, EDF Energy ac E.on) a'r Gymdeithas Manwerthu Ynni (ERA). O fis Hydref 2009, caiff Ofgem ei gynrychioli hefyd yng nghyfarfodydd y Ford Gron.

  Diben y cyfarfodydd yw darparu fforwm lle y gall y Gweinidog a chyflenwyr ynni drafod polisïau Llywodraeth y Cynulliad ar ynni a newid yn yr hinsawdd, a phryderon ynghylch y ddarpariaeth gwasanaethau ynni a chost ynni i ddeiliaid tai yng Nghymru.

- Cyfarfodydd dwyochrog – cyfarfodydd rheolaidd rhwng Llywodraeth y Cynulliad a chyflenwyr ynni unigol, y Gymdeithas Manwerthu Ynni (ERA) ac Ofgem. Diben y cyfarfodydd hyn yw galluogi trafodaeth ar gamau

penodol sy'n cael eu cymryd gan gyflenwyr ynni yng Nghymru a chodi materion na ellir eu datblygu yn y Ford Gron ar Ynni.

Gyda phartneriaid allweddol ledled y DU:-

- Grŵp y Gweinidogion - mae'r grŵp hwn yn rhoi cyfle i Weinidogion Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig drafod materion trawsbynciol.

- Grŵp Adolygu Strategaeth Gweithredu Cymdeithasol Ofgem - Ym mis Ebrill 2008, cynhaliodd Ofgem Uwchgynhadledd ar Dlodi Tanwydd gyda'r amcan o nodi ffyrdd ymarferol, cost effeithiol o wneud gwelliannau gwirioneddol i fywydau defnyddwyr ynni sy'n agored i niwed a'r rheini mewn tlodi tanwydd cyn gynted â phosibl.  Canolbwyntiodd yr Uwchgynhadledd ar dariffau a'r cymorth a ddarperir gan gyflenwyr. Cynhyrchwyd rhaglen sy'n cael ei hadolygu'n gyson gan Ofgem drwy ei Grŵp Adolygu Strategaeth Gweithredu Cymdeithasol.

- Cyfarfodydd rheolaidd gydag Ofgem i drafod gweithredu polisïau a rhaglenni o dan ei reolaethau rheoliadol.


| |
|---|
| *C5: A oes unrhyw beth arall y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru fod yn ei wneud i helpu i sicrhau bod sefydliadau ledled Cymru a'r DU yn cydweithio'n effeithiol er mwyn mynd i'r afael â thlodi tanwydd?* |

### 6.3 Mesurau Effeithlonrwydd Ynni a Thechnolegau Cynhyrchu Ynni Carbon Isel neu Ddi-garbon

Un o nodweddion allweddol ein Strategaeth Tlodi Tanwydd fydd y buddsoddiad mewn technolegau cynhyrchu ynni carbon isel neu ddi-garbon mewn cartrefi lle mae deiliaid tai yn fwyaf tebygol o wynebu tlodi tanwydd.  Bydd cyngor a chymorth, fel y nodir uchod, yn elfen hanfodol o raglenni buddsoddi.

Rydym yn bwriadu gwneud hyn mewn dwy ffordd.  Byddwn yn parhau i ddarparu rhaglen Cymru gyfan sy'n helpu deiliaid tai unigol i wella perfformiad ynni eu cartrefi a lleihau effaith biliau tanwydd.  Byddwn hefyd yn datblygu rhaglenni sylweddol i wella perfformiad ynni'r stoc dai mewn ardaloedd penodol. Mae Ffigur 7 yn dangos sut y byddai'r ddwy ffordd o weithredu yn cyd-fynd â'i gilydd.

Ffigur 7: Y dull gweithredu o ran tlodi tanwydd a rhaglenni effeithlonrwydd ynni




## 6.4 Cymorth Cymru Gyfan

Byddwn yn datblygu rhaglen Cymru gyfan newydd, well i helpu deiliaid tai i leihau effaith biliau tanwydd a bydd y rhaglen hon yn disodli'r Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref. Caiff y rhaglen ei chytuno erbyn diwedd 2010. Bydd y rhaglen gydgysylltiedig yn cynnwys cyngor ar effeithlonrwydd ynni, tariffau a budd-daliadau ynghyd â chysylltiadau â chyllid cwmnïau ynni a rhaglenni eraill a ddatblygir ar lefel y DU a Chymru.

Bydd y rhaglen newydd yn gweithio tuag at sefyllfa lle y gellir manteisio ar bob math o gymorth i helpu i leihau effaith biliau tanwydd ei gydgysylltu drwy gyfrwng un rhif ffôn. Byddwn yn adeiladu ar rwydweithiau presennol i gyflawni hyn. Byddai'r pwynt cydgysylltu canolog hwn yn ganolbwynt rhwydwaith atgyfeirio cryfach a mwy o faint a gynigir yn Adran 6.1. Byddwn yn cynorthwyo asiantaethau a phartneriaid lleol i atgyfeirio deiliaid tai at y rhaglen newydd.


Bydd lefel y cymorth a roddir i ddeiliaid tai yn dibynnu ar eu hamgylchiadau unigol, a bydd yn cynnwys:-

- Amrywiaeth o wasanaethau cyngor a chymorth (yn cynnwys drwy sefydliadau partner).
- Mynediad cydgysylltiedig i ffynonellau ariannu sydd ar gael yn eang megis y Targed Lleihau Allyriadau Carbon (a'i olynydd).

- Caiff asesiad o'r tŷ cyfan ei gynnig i ddeiliaid tai yr ystyrir eu bod yn fwyaf tebygol o wynebu tlodi tanwydd (yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael) er mwyn nodi'r ffordd fwyaf cost effeithiol o wella perfformiad ynni eu heiddo.  Yna, bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ariannu'r gwelliannau mwyaf priodol (yn amodol ar gyfyngiadau penodol, a gaiff eu hadolygu o bryd i'w gilydd).

Mae Ffigur 8 isod yn dangos y lefelau amrywiol o gymorth a all fod ar gael.

*Ffigur 8: Bydd gwahanol lefelau o gymorth ar gael i ddeiliaid tai ledled Cymru yn dibynnu ar eu hamgylchiadau*




Bydd cymhwysedd i gael asesiadau o'r tŷ cyfan a phecynnau gwella a ariennir gan Lywodraeth y Cynulliad yn dibynnu ar berfformiad ynni yr eiddo ac amgylchiadau cyfredol deiliad y tŷ.  Caiff cymhwysedd ei ddiffinio mewn rheoliadau a/neu benderfyniadau o bryd i'w gilydd, a bydd yn seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael yn nhermau'r grwpiau sydd fwyaf tebygol o wynebu tlodi tanwydd. Gweler Atodiad 1 ar gyfer y meini prawf cymhwysedd y disgwyliwn iddynt fod ar waith i ddechrau.

Byddwn yn parhau i roi grant rhannol nad yw'n seiliedig ar brawf modd ar gyfer inswleiddio'r atig a waliau ceudod i ddeiliaid tai yr ystyrir eu bod yn agored i effeithiau tlodi tanwydd. Caiff ei bennu ar lefel a fydd yn sicrhau y gwneir y defnydd gorau posibl o gyflenwr ynni neu arian arall sydd ar gael ledled y DU cyn y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn defnyddio ei harian ei hun. Bydd hyn yn helpu i sicrhau nad yw ffynonellau ariannu yn cael eu dyblygu. Bydd y grant rhannol yn rhoi opsiwn 'wrth gefn' rhag ofn y bydd problem yn codi o ran cael gafael ar arian gan gyflenwr

ynni neu arian arall sydd ar gael ledled y DU ar gyfer inswleiddio atig a waliau ceudod am ddim neu am lai o gost.

| |
|---|
| *C6: A ydych yn cytuno â'r diffiniad o aelwydydd sy'n agored i niwed fel y nodir yn Atodiad 1? Byddem yn ddiolchgar pe bai ymatebwyr yn rhoi tystiolaeth i gefnogi eu hymateb.* |

Cafodd y dull cyffredinol o weithredu mewn perthynas â buddsoddiad Llywodraeth y Cynulliad i wella perfformiad ynni aelwydydd mewn tlodi tanwydd a nodir uchod ei gefnogi gan y rhan fwyaf o'r rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad ar y Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Effeithlonrwydd ac Arbedion Ynni (lle cafodd ei gynnig am y tro cyntaf). Fodd bynnag, dywedodd ymatebwyr eu bod am allu gwneud sylwadau ar fanylion pellach y cynigion. Cytunir ar ein rhaglen tlodi tanwydd i Gymru gyfan erbyn diwedd 2010. Bydd hyn yn galw am ddiwygio Rheoliadau, a fydd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus llawn yn ystod gaeaf 2009/10. Ceir rhagor o fanylion am y diwygiadau arfaethedig yn 2010 yn Atodiad 1.

Byddwn yn cyflwyno mesurau interim er mwyn sicrhau bod pobl yn dechrau cael budd o'n cynigion cyn gynted â phosibl. Ceir rhagor o fanylion am fesurau interim yn Atodiad 1 hefyd.

Disgwyliwn allu cynnig pecynnau gwella perfformiad ynni wedi'u hariannu gan Lywodraeth y Cynulliad i rhwng 2,700 a 3,600 o ddeiliaid tai ledled Cymru bob blwyddyn (yn dibynnu ar uchafswm lefel y buddsoddiad fesul eiddo). Nod y rhaglen newydd hon yw gwneud gwahaniaeth sylweddol yn y cartrefi a fydd yn cael y budd mwyaf tra’n cynnig cyngor a chymorth i’r rhan fwyaf o aelwydydd i leihau eu biliau ynni. Bob blwyddyn, mae'r pecynnau gwella perfformiad ynni ychwanegol ar eu pen eu hunain yn debygol o arbed tua £1.4m - £1.7m i ddeiliaid tai ar eu biliau ynni blynyddol a chreu rhwng 7,600 a 9,600 o dunelli yn llai o allyriadau nwyon tŷ gwydr. Ceir buddiannau ychwanegol sylweddol yn sgîl cyngor, cymorth arall a gwelliannau eraill a ariennir gan gwmnïau ynni. Disgwyliwn y gallai hyd at 7,000 o ddeiliaid tai y flwyddyn gael eu hatgyfeirio i gael gwelliannau effeithlonrwydd ynni mwy sylfaenol wedi’u hariannu gan gwmnïau ynni o dan CERT.

### 6.5 Rhaglen yn seiliedig ar ardal

Mae rhaglenni yn seiliedig ar ardal yn cynnig effeithlonrwydd a chyfleoedd i ymgysylltu â deiliaid tai ym mhob rhan o'r gymuned (yn cynnwys y rheini na fyddent efallai yn gwneud cais am help eu hunain). Ar yr un pryd, rydym yn ymrwymedig i barhau i gynnig rhaglenni wedi’u harwain gan alw sy’n golygu y gallwn gynnig help i bobl ledled Cymru.

Gan weithio gyda phartneriaid, rydym wedi datblygu rhaglen fawr (*Arbed - Rhaglen Fuddsoddi Perfformiad Ynni Strategol)* i wella perfformiad ynni cartrefi mewn cymunedau ledled Cymru. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn buddsoddi o leiaf £30 miliwn mewn gwelliannau effeithlonrwydd ynni yn seiliedig ar ardal a thechnolegau cynhyrchu ynni carbon isel neu ddi-garbon cyn diwedd 2011. Mae'r buddsoddiad hwn yn cynnwys £12 miliwn fel rhan o Barth Carbon Isel Blaenau'r Cymoedd a £18 miliwn o'r buddsoddiad sydd wedi'i neilltuo ar gyfer

adeiladau carbon isel. Byddwn hefyd yn cyfrannu at ddatblygu rhaglenni sylweddol yn seiliedig ar ardal i wella perfformiad ynni sy'n defnyddio Cronfeydd Strwythurol yr UE. Bydd y buddsoddiad yn y rhaglen yn canolbwyntio ar aelwydydd incwm isel ac aelwydydd mewn tlodi tanwydd yn yr Ardaloedd Adfywio Strategol ledled Cymru.

Bydd y rhaglen yn ceisio gwneud y defnydd gorau posibl o ffynonellau ariannu ychwanegol lle bynnag y bo'n bosibl. Er enghraifft, rydym yn gobeithio y gallwn ddefnyddio ein buddsoddiad o £30 miliwn mewn gwelliannau ynni yn seiliedig ar ardal i sicrhau buddsoddiad gan gwmnïau ynni drwy'r Rhaglen Arbed Ynni Gymunedol.

Disgwyliwn y gall rhwng 12,000 a 15,000 o aelwydydd gael pecynnau gwella perfformiad ynni fel rhan o'r rhaglenni hyn sy'n seiliedig ar ardal. Gallai hyn arwain at hyd at 1,900 o flynyddoedd o gyflogaeth[3], lleihau biliau ynni cartref blynyddol rhwng £6.1m a £7.4m a chreu rhwng 33,500 a 40,000 o dunelli yn llai o allyriadau nwyon tŷ gwydr.

*C7: A yw ein dull arfaethedig o weithredu mewn perthynas â rhaglenni Cymru gyfan a rhaglenni yn seiliedig ar ardal yn glir? A ydych o'r farn bod y cyfuniad hwn o ddulliau gweithredu yn briodol?*

### 6.6 Gwella safonau tai

Bydd gweithredu a chynnal Safon Ansawdd Tai Cymru mewn tai cymdeithasol yn helpu i gadw cost gwresogi cartrefi yn y sector hwn yn isel. Mae Safon Ansawdd Tai Cymru yn golygu y gellir amcangyfrif y defnydd blynyddol o ynni ar gyfer gwresogi lle a dŵr gan ddefnyddio'r dull SAP (Gweithdrefn Asesu Safonol) ac mae'n nodi isafswm gradd SAP o 65 allan o 100 y gellir ei chyflawni. Mae gradd SAP o 65 yn cyfateb i radd Tystysgrif Perfformiad Ynni D.

Bydd rhoi cyngor a chymorth ar agweddau eraill ar dlodi tanwydd (e.e. tariffau, budd-daliadau, effeithlonrwydd ynni) yn bwysig i helpu tenantiaid. Hefyd, mae angen canolbwyntio ar ymddygiad defnyddwyr/deiliaid tai wrth i effeithlonrwydd thermal yr adeilad gael ei wella. Gall adborth ar ddefnydd fod yn ddefnyddiol e.e. Mesuryddion Deallus, Archwiliadau Ynni, Biliau gwybodaeth, cynlluniau labelu.

Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn gweithio'n agos gydag Awdurdodau Lleol i wella safonau yn y sector preifat, yn enwedig mewn ardaloedd adfywio a arweinir gan dai ac sy'n cynnwys gwelliannau sylweddol i effeithlonrwydd ynni cartrefi, yn aml fel rhan o raglen wella ehangach. Mae grantiau i wella effeithlonrwydd ynni cartrefi prynwyr cyntaf hefyd yn cael eu treialu mewn ardaloedd adfywio gan 17 o Awdurdodau Lleol.

Yn gynyddol, bydd safonau perfformiad ynni uchel ar gyfer tai newydd yng Nghymru yn helpu i sicrhau bod y gost sy'n gysylltiedig â gwresogi tai newydd yn parhau i leihau. Unwaith eto, bydd cyngor a chymorth arall, yn enwedig ar sut i wneud y

[3] Mae gwahaniaeth clir rhwng 'swyddi' a blynyddoedd cyflogaeth – sy'n cyfateb i un unigolyn yn cael ei gyflogi am flwyddyn. Swydd yw'r gwaith rheolaidd a wneir gan unigolyn i ennill arian a gall bara am gyfnod hir neu gyfnod byr iawn.

gorau o nodweddion cartrefi a gaiff eu hadeiladu yn unol â safonau ynni uchel, yn bwysig.

### 6.7 Cysylltiadau rhwng gwella perfformiad ynni tai, adfywio a'r economi

Mae buddsoddi mewn effeithlonrwydd ynni domestig – o ystyried ei natur lafurddwys – yn rhoi cyfle gwirioneddol i greu cyfleoedd economaidd i fusnesau yng Nghymru (o ran dylunio, gweithgynhyrchu, dosbarthu, gosod a chynnal a chadw technolegau adnewyddadwy a mesurau effeithlonrwydd ynni) a chyfleoedd cyflogaeth i bobl Cymru (mewn galwedigaethau/sectorau sgiliau canolig i uwch). Hefyd, os yw biliau ynni yn is, bydd gan ddeiliaid tai mwy o arian i'w wario yn yr economi leol. Felly, mae gwella perfformiad ynni tai yn fuddiol ar dair lefel o ran mynd i'r afael â thlodi tanwydd – mae'n helpu deiliaid tai i leihau eu biliau, mae'n helpu i greu swyddi a thrwy hynny gyfleoedd i gynyddu incwm lleol a gall hefyd helpu i gefnogi swyddi eraill yn yr economi leol.

Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi nifer o ymyraethau trawsbynciol ar waith i sicrhau y gellir manteisio ar bob un o'r buddiannau sy'n gysylltiedig â buddsoddi mewn effeithlonrwydd ynni domestig yng Nghymru. Bydd y rhain yn cynnwys:-

- Cymorth busnes (technegol ac ariannol) ar gyfer busnesau a mentrau cymdeithasol yng Nghymru.
- Cymorth ar gyfer ymchwil a datblygu gan Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru i effeithlonrwydd ynni/technolegau ynni adnewyddadwy.
- Prosiectau blaenllaw (arddangos a pheilot).
- Sgiliau a hyfforddiant i bobl leol mewn galwedigaethau/sectorau perthnasol.

### 6.8 Camau Gweithredu ar lefel Gymunedol

Rydym yn cydnabod y gall cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar raddfa gymunedol helpu i fynd i'r afael â thlodi tanwydd drwy gynhyrchu incwm ar gyfer prosiectau cymunedol a/neu ddarparu ynni neu wres rhatach i'r gymuned gyfan.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn bwriadu cefnogi camau gweithredu o'r fath drwy ei Phrosiect Cynhyrchu Ynni Adnewyddadwy ar raddfa Gymunedol. Bydd y prosiect yn golygu y gellir sefydlu neu ddatblygu 22 o fentrau cymdeithasol cynaliadwy sy'n seiliedig ar osodiadau ynni adnewyddadwy cymunedol newydd. Bydd y prosiect hefyd yn cynnwys gwasanaeth swyddog datblygu i feithrin capasiti a rhoi cyngor lleol.

O ystyried y rôl y gall ynni adnewyddadwy ar raddfa gymunedol ei chwarae o ran mynd i'r afael â thlodi tanwydd, mae Llywodraeth y Cynulliad yn galw ar Lywodraeth y DU i sicrhau bod ei Thariffau Bwydo i Mewn a'i Chymhellion Gwres Adnewyddadwy yn cael eu pennu ar gyfradd sy'n gwneud y math hwn o weithredu yn ddeniadol i gymunedau.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cefnogi Gwobrau Feel the Heat National Energy Action hefyd fel ffordd o roi sylw i gamau cymunedol arloesol sydd â'r nod o fynd i'r afael â thlodi tanwydd.

Bydd y gwasanaeth canolog hefyd yn chwarae rhan bwysig o ran nodi darparwyr cyngor yn y gymuned a chysylltu â hwy. Bydd y gwasanaeth canolog yn fan amlwg y gall y darparwyr hyn gyfeirio pobl mewn tlodi tanwydd ato i gael cymorth.

### 6.9 Helpu deiliaid tai i dalu am welliannau ynni

Roedd llawer o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad ar y Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Effeithlonrwydd ac Arbedion Ynni yn pryderu am ddeiliaid tai na fyddai'n gymwys i gael gwelliannau am ddim i berfformiad ynni eu cartref o drwch blewyn, ond na fyddai o bosibl yn gallu fforddio cyfrannu at welliannau, hyd yn oed pe bai cymhorthdal yn cael ei roi.

Awgrymodd y ddogfen ymgynghori ar y Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Effeithlonrwydd ac Arbedion Ynni mai un opsiwn fyddai gweithio gydag undebau credyd i gynnig pecynnau benthyciadau wedi'u cynllunio yn y fath fodd fel bod ad-daliadau benthyciadau yn llai nag arbedion ar filiau ynni. Er bod yr ymatebwyr yn cefnogi'r cysyniad, codwyd nifer o faterion, yn cynnwys y diffyg sylw a roddir i undebau credyd yn genedlaethol ar hyn o bryd[4], gallu ac adnoddau undebau credyd, a phryderon y gallai llawer o ddeiliaid tai sy'n wynebu tlodi tanwydd (yn enwedig pobl hŷn) fod yn amharod i fynd i ddyled.

Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i ystyried y potensial i weithio gydag undebau credyd a sefydliadau ariannol eraill i helpu pobl i dalu am welliannau effeithlonrwydd ynni yng Nghymru. Mae hwn yn faes y mae Llywodraeth y DU yn rhoi pwyslais sylweddol arno ar hyn o bryd hefyd, yn enwedig mewn perthynas â gwelliannau drutach a mwy o faint. Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth y DU ac yn rhoi ein dulliau ein hunain ar waith lle y bo angen, i sicrhau bod amrywiaeth o opsiynau a meintiau benthyciadau ar gael i ddeiliaid tai yng Nghymru.

### 6.10 Sicrhau'r Incwm Mwyaf Posibl

Mae Strategaeth Cynhwysiant Ariannol Cymru yn nodi'r angen i ddarparu gwasanaeth cyngor integredig o ran y ffordd y gellir lleihau biliau cyfleustodau drwy wella effeithlonrwydd ynni a chyngor ar sut y gall aelwydydd reoli eu dyledion yn well a chynyddu eu hincwm drwy fudd-daliadau neu leihau gwariant gyda chyngor ariannol arbenigol.

[4] Er bod hwn yn rhywbeth y mae'r Strategaeth Cynhwysiant Ariannol yn ceisio mynd i'r afael ag ef.

Ymhlith y mesurau allweddol i fynd i'r afael â thlodi tanwydd a gaiff eu datblygu drwy'r Strategaeth Cynhwysiant Ariannol mae:-

- Cynnwys tlodi tanwydd yng ngwaith y tîm newydd o Hyrwyddwyr Cynhwysiant Ariannol i Gymru a ariennir ar y cyd gan Lywodraeth y Cynulliad a'r Adran Gwaith a Phensiynau.
- Gweithio gyda'r tîm o Hyrwyddwyr Cynhwysiant Ariannol i gynyddu ymwybyddiaeth o ffynonellau lle ceir cyngor diduedd ar ddyled yn rhad ac am ddim, gan feithrin partneriaethau rhwng asiantaethau cyngor ar ddyled a benthycwyr trydydd sector lleol.
- Datblygu mudiad undebau credyd cryf a chynaliadwy ledled Cymru, sy'n hygyrch i bob dinesydd ac sydd â'r capasiti i ddarparu amrywiaeth eang o wasanaethau ariannol fforddiadwy.
- Annog a chefnogi ffyrdd o leihau biliau cyfleustodau yn cynnwys:-
    - Helpu deiliaid tai i ystyried a allant gael y cynigion gorau sydd ar gael drwy newid cyflenwyr ynni.
    - Helpu i sicrhau bod yr aelwydydd sydd fwyaf agored i niwed yn manteisio ar 'dariffau cymdeithasol' er mwyn sicrhau y gallant brynu ynni yn rhatach.
    - Annog deiliaid tai i gael Gwiriad Hawl i Fudd-dal er mwyn sicrhau eu bod yn cael yr holl fudd-daliadau y mae ganddynt yr hawl i'w cael.
    - Gwneud cartrefi yn fwy ynni effeithlon.

Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn gweithio i sicrhau bod *Arbed - Rhaglen Fuddsoddi Perfformiad Ynni Strategol* yn cynhyrchu buddiannau economaidd i Gymru. Drwy greu cyfleoedd cyflogaeth, byddwn yn sicrhau bod pobl mewn sefyllfa well i ddelio â'u biliau tanwydd. Rydym yn gweithio ym mhob rhan o Lywodraeth y Cynulliad i sicrhau bod y gweithlu a'r boblogaeth fusnes yng Nghymru yn ymgysylltu'n briodol a bod ganddynt y sgiliau priodol i gael budd o'r buddsoddiad.

### 6.11 Prisiau ynni

Agwedd bwysig arall ar fynd i'r afael â thlodi tanwydd yng Nghymru fydd sicrhau bod deiliaid tai ar y tariff ynni gorau ar gyfer eu hamgylchiadau.

Er nad yw prisiau ynni yn fater datganoledig, bydd Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i weithio gyda chyflenwyr ynni ac Ofgem i sicrhau bod defnyddwyr yn gallu cael gafael ar wybodaeth a chyngor ar yr amrywiaeth o dariffau sydd ar gael a pha dariff fydd yn diwallu eu hanghenion orau.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cefnogi'r gwaith a wnaed gan Ofgem hyd yma i ddileu gwahaniaethau annheg mewn prisiau ac mae'n cefnogi ei chynigion i'w gwneud yn ofynnol i gyflenwyr ynni wella'r wybodaeth sydd ar gael i ddefnyddwyr. Bydd hyn yn ei gwneud yn haws i bobl ddewis y tariff a'r cyflenwr gorau iddynt hwy. Byddwn yn parhau i herio cwmnïau ynni i wneud mwy.

Bydd Llywodraeth y Cynulliad, drwy sefydlu gwasanaeth canolog ar gyfer rhoi cyngor a chymorth, yn sicrhau bod protocolau ar waith i atgyfeirio galwyr at y gwasanaeth mwyaf priodol ar gyfer cyngor ar dariffau ynni a newid cyflenwyr.

**Tariffau Cymdeithasol**

Ar hyn o bryd, mae cyflenwyr ynni yn rhoi tariffau cymdeithasol i ddefnyddwyr cymwys fel rhan o gytundeb gwirfoddol gyda Llywodraeth y DU, ond mae pryder nad yw pob defnyddiwr cymwys yn cael tariff gymdeithasol ratach gan ei gyflenwr.

Yng Nghynllun Pontio Carbon Isel y DU, amlinellodd Llywodraeth y DU gynigion i ddatblygu'r cytundeb gwirfoddol drwy gyflwyno deddfwriaeth i wneud prisiau cymdeithasol yn statudol. Mae Llywodraeth y Cynulliad o blaid rhoi mandad ar dariffau cymdeithasol a sicrhau cysondeb rhwng cyflenwyr, a bydd yn sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu cynrychioli yn ystod y broses o ddatblygu'r ddeddfwriaeth ac ymgynghori arni.

## 6.12 Rheoliadau a Chynlluniau Statudol

Mewn rhai achosion, efallai y bydd angen cyflwyno rheoliadau er mwyn mynd i'r afael â thlodi tanwydd yng Nghymru. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ceisio defnyddio rheoliadau presennol yn fwy effeithiol bob amser cyn ystyried rheoliadau newydd. Dim ond ochr yn ochr â pholisïau cyflenwol neu ategol, neu pan fo dulliau eraill wedi methu y byddai rheoliadau yn cael eu rhoi ar waith.

**System Graddio Iechyd a Diogelwch Tai (HHSRS)**

Amcangyfrif bod cyfran uwch na'r cyfartaledd o aelwydydd yn y sector rhent preifat mewn tlodi tanwydd (17 y cant o'u cymharu â chyfartaledd o 11 y cant ym mhob daliadaeth yn 2004). Mae perfformiad ynni yn dueddol o fod yn is yn y sector rhent preifat gan nad yw landlordiaid yn cael budd uniongyrchol o ostyngiadau mewn biliau tanwydd sy'n deillio o well perfformiad ynni.

Un opsiwn ar gyfer annog landlordiaid i wella perfformiad ynni eu heiddo yw amlygu'r ffaith y gall eiddo sy'n arbennig o aneffeithlon gael effaith niweidiol ar iechyd tenantiaid, a gallant felly fod yn 'berygl categori 1' o dan y System Graddio Iechyd a Diogelwch Tai (HHSRS).

Yn seiliedig ar ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Effeithlonrwydd ac Arbedion Ynni a thrafodaethau â gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd yr amgylchedd, credwn y gallai'r cynigion canlynol helpu i annog landlordiaid i wella perfformiad ynni eu heiddo:-

- Rhoi canllawiau ar y cysylltiad rhwng eiddo gradd F a G a Pheryglon Categori 1 o dan HHSRS.
- Rhoi cyngor i landlordiaid ar y cymorth sydd ar gael i sicrhau nad yw eu heiddo yn berygl o dan yr amgylchiadau canlynol:-

- Os yw eu heiddo yn cael gradd F neu G ar Dystysgrif Perfformiad Ynni; neu
- Os yw asiantaethau allanol yn awgrymu y gallai eiddo fod yn berygl.

Gallai'r cyngor hwn gael ei roi gan drydydd parti, er enghraifft, yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni.

- Cysylltu â landlordiaid mewn ardaloedd â chyfrannau uchel o eiddo rhent preifat sy'n debygol o fod yn eiddo gradd F neu G (e.e. ardaloedd â niferoedd uchel o aelwydydd â waliau solet oddi ar y rhwydwaith nwy).
- Cyfeirio landlordiaid sy'n gwrthod cael mesurau a ariennir gan Lywodraeth y Cynulliad neu gwmni ynni wedi'u gosod yn eu heiddo i gael arolygiad HHSRS.

| |
|---|
| C8: *A ydych o'r farn bod y cynigion i annog landlordiaid i wella perfformiad ynni eu heiddo yn briodol?* |

**Cynlluniau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles**

Mae gan awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd Lleol a'u partneriaid rôl hanfodol i'w chwarae o ran mynd i'r afael â thlodi tanwydd. Mae agweddau pwysig ar eu rôl yn cynnwys:-

- Helpu i nodi'r aelwydydd hynny y mae angen cymorth arnynt fwyaf (bydd llawer ohonynt eisoes mewn cysylltiad â darparwyr gwasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol lleol).
- Helpu i dargedu rhaglenni i leihau effaith biliau tanwydd a chyfrannu atynt (gan ddefnyddio gwybodaeth ac arbenigedd lleol).

Rydym yn cynnig y dylid cynnwys canllawiau ar wireddu cyfleoedd i fynd i'r afael â thlodi tanwydd yn lleol yn y cylch nesaf o ganllawiau ar Gynlluniau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles. Gellir cynnwys cynlluniau gweithredu gwres fforddiadwy presennol yn y Cynlluniau. Bydd cynnwys tlodi tanwydd yn y canllawiau ar gyfer y cynlluniau statudol hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaeth lleol ystyried tlodi tanwydd yn eu hardaloedd lleol yng nghyd-destun ffactorau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Disgwylir i'r canllawiau gael eu hadolygu nesaf yn 2010, a byddant yn llywio'r Cynlluniau sy'n cwmpasu'r cyfnod 2011-2014.

## 7. Monitro a Chyflwyno Adroddiadau

Bydd deall graddau tlodi tanwydd a'i ddosbarthiad yn hanfodol i'n helpu i weithio tuag at ein targedau tlodi tanwydd. Mae angen gwybodaeth well a mwy rheolaidd arnom i'n helpu i dargedu ein polisïau a'n rhaglenni mor effeithiol â phosibl. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu Cynllun Monitro a Gwerthuso a fydd yn cwmpasu:-

- Cynnydd tuag at dargedau statudol Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer 2010, 2012 a 2018.
- Targedau gweithgarwch interim a mesurau canlyniadau a fydd yn rhoi darlun blynyddol o gynnydd o ran mynd i'r afael â thlodi tanwydd.
- Trefniadau cyflwyno adroddiadau, yn cynnwys adroddiad blynyddol.
- Adolygiadau o'r broses.
- Gwerthusiad o HEES a'i olynydd (grantiau uniongyrchol Llywodraeth y Cynulliad a chynllun ehangach).

Bydd y wybodaeth a gaiff ei chynnwys yn ein cynlluniau monitro a gwerthuso yn y dyfodol yn cynnwys:-

- Nifer yr aelwydydd mewn tlodi tanwydd.
- Difrifoldeb tlodi tanwydd.
- Perfformiad ynni eiddo.
- Lleihad mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr (yn cynnwys cyfraniad tuag at y targed o dri y cant).
- Gwariant aelwydydd ar danwydd (yn cynnwys cyn ac ar ôl mesurau HEES).

| |
|---|
| *C9: A oes unrhyw beth arall y dylai'r cynllun monitro a gwerthuso ei gwmpasu yn eich barn chi? A ydych yn gwybod am unrhyw ddata, neu a yw eich sefydliad yn dal unrhyw ddata, a all ein helpu i fonitro a gwerthuso ein cynnydd?* |

**Atodiad1**

## Manylion cynigion ar gyfer newidiadau interim i'r Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref (HEES) yn 2009/10

Byddwn yn gwneud rhai newidiadau interim i'r Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref presennol yn ystod Hydref/Gaeaf 2009/10.  Bydd y rhain yn cynnwys:-

- Gan adeiladu ar y gwaith a wnaed o dan HEES i gyflwyno arian CERT yng Nghymru, byddwn yn ystyried, gyda chwmnïau ynni, brosesau ar gyfer sicrhau bod arian CERT yn cael ei ddefnyddio bob amser cyn arian Llywodraeth y Cynulliad lle y bo'n bosibl.
- Darparu canllawiau i reolwyr y cynllun presennol ar ble i gyfeirio deiliaid tai i gael cymorth priodol mewn argyfwng.
- Treialu asesiadau tai cyfan a phecynnau gwella perfformiad ynni mewn nifer fach o gartrefi (yn cynnwys cartrefi sy'n anodd eu trin) i brofi costau, buddiannau a phrosesau gweithredol.  Bydd hyn yn llywio datblygiad y rhaglen newydd y cytunir arni erbyn diwedd 2010.

**Manylion cynigion ar gyfer newidiadau i gymorth Cymru gyfan yn 2010**

**Strwythur y rhaglen**

Caiff y rhaglen gymorth newydd ei rheoli drwy wasanaeth canolog a fydd yn cydgysylltu mynediad ac atgyfeiriadau at:-

- Ddarparwyr cyngor eraill.
- Asiantaethau cymorth lleol.
- Arian cwmnïau ynni.
- Pecynnau gwella ynni Llywodraeth y Cynulliad.

**Cymhwysedd**

Bydd pob deiliad tŷ yng Nghymru yn gallu cael gafael ar amrywiaeth o gyngor a chymorth drwy'r gwasanaeth canolog.  Cynigir cyngor manylach i ddeiliaid tai sy'n ei chael hi'n anodd talu eu biliau tanwydd (aelwydydd sy'n gwario mwy na 10 y cant o'u hincwm ar eu biliau ynni).

*Mesurau cyflenwyr ynni am ddim:*

Bydd deiliaid tai sydd dros 70 oed ac sy'n cael budd-daliadau cymhwyso yn gallu manteisio ar fesurau cyflenwyr ynni am ddim.

*Grant rhannol Llywodraeth Cynulliad Cymru:*

Lle y bo'n briodol, cynigir grant rhannol Llywodraeth y Cynulliad i ddeiliaid tai sy'n agored i niwed.  Caiff y grant rhannol ei bennu ar lefel sy'n manteisio i'r eithaf ar yr

arian sydd ar gael ledled y DU cyn y defnyddir arian penodol Llywodraeth y Cynulliad.

Y diffiniad o ddeiliaid tai sy'n agored i niwed a ddefnyddir yn aml yw:-

- Deiliaid tai dros 60 oed.
- Deiliaid tai sy'n anabl neu sydd â salwch cronig. Neu
- Deiliaid tai â phlant o dan 16 oed.

*Cyngor manwl:*

Caiff ei gynnig i ddeiliaid tai sy'n ei chael hi'n anodd talu eu biliau tanwydd.

*Noder, rydym yn cynnal ymgynghoriad ar ba un a yw'r diffiniad hwn yn dal i fod yn briodol - gweler C6.*

*Pecynnau gwella perfformiad ynni (asesiadau tai cyfan):*

Bydd pecynnau gwella perfformiad ynni Llywodraeth y Cynulliad ar gael i'r deiliaid tai hynny sy'n bodloni'r holl feini prawf canlynol:-

- Yn cael budd-daliadau sy'n seiliedig ar brawf modd.
- Yn byw mewn eiddo sy'n arbennig o aneffeithlon (ar hyn o bryd disgwylir i hyn olygu'r deiliaid tai hynny sy'n byw mewn cartref y disgwylir iddo gael gradd F neu G ar Dystysgrif Perfformiad Ynni (EPC).
- Yn byw mewn llety preifat neu lety ar rent. Ni fydd tai cymdeithasol yn gymwys ar gyfer y pecynnau gwella hyn. Mae rhaglenni eraill, megis ein cynlluniau yn seiliedig ar ardal a'r Rhaglen Arbed Ynni Gymunedol, yn cynnig cyfleoedd ariannu ar gyfer cartrefi aneffeithlon yn y sector tai cymdeithasol.

Rydym yn cydnabod bod cysylltu cymhwysedd ar gyfer pecynnau gwella perfformiad ynni â budd-daliadau yn seiliedig ar brawf modd yn golygu y bydd hyd yn oed yn bwysicach sicrhau bod deiliaid tai sy’n gymwys i gael budd-daliadau yn seiliedig ar brawf modd yn manteisio arnynt. Er enghraifft, mae Age Concern Cymru a Help the Aged Cymru yn awgrymu nad yw un o bob tri o bobl hŷn sy’n gymwys i gael credyd pensiwn yn hawlio’r budd-dal mewn gwirionedd. Felly, bydd cysylltiadau â chymorth manteisio ar fudd-daliadau yn rhan hanfodol o’r cynllun newydd.

**Mesurau sydd ar Gael**

Bydd pecyn gwella ynni yn cynnwys asesiad tŷ cyfan o'r pecyn mesurau mwyaf cost effeithiol i wella perfformiad ynni cartref penodol. Gall yr asesiad gael ei gynnal o bell, neu mewn rhai achosion (yn enwedig yn achos cartrefi sy'n anodd eu trin) bydd aseswr yn ymweld â'r eiddo i weld pa fesurau sydd orau ar gyfer yr eiddo. Gall y pecyn tŷ cyfan gynnwys mesurau sylfaenol (e.e. inswleiddio'r atig a waliau ceudod, cwrs gwrthddrafft ac ati), newid boeler sy'n arbennig o aneffeithlon, inswleiddio

waliau solet a/neu dechnolegau cynhyrchu ynni carbon isel neu ddi-garbon. Gall gynnwys un mesur yn unig neu gyfuniad o welliannau. Ym mhob achos, bydd y gwelliannau a gynigir yn seiliedig ar nodweddion pob eiddo. Bydd y pecynnau yn defnyddio arian sydd ar gael ledled y DU neu arian cwmnïau ynni lle y bo'n bosibl.

**Proses**

Mae'r canlynol yn grynodeb o'r camau y disgwylir iddynt fod yn rhan o'r broses o gael pecyn gwella ynni a ariennir yn llawn:-

- Gofynnir cwestiynau sylfaenol i ddeiliaid tai am eu hamgylchiadau personol a nodweddion eu cartref.
- Yn seiliedig ar y wybodaeth a roddir am nodweddion y cartref, gwneir amcangyfrif o'r radd EPC gyfredol debygol.
- Gwneir asesiad o'r ffyrdd mwyaf effeithiol a phriodol o wella perfformiad ynni'r cartref (o bell neu ar y safle).
- Esbonnir y gwelliannau a argymhellir i ddeiliad y tŷ.
- Gwneir trefniadau gyda'r deiliaid tai i wneud y gwelliannau.
- Bydd deiliaid tai yn cael amrywiaeth o gyngor drwy gydol y broses.
- Caiff profiadau deiliaid tai o'r broses a'r gwelliannau eu gwerthuso.

Caiff y dull hwn o weithredu ei dreialu yn ystod Gaeaf 2009/2010. Bydd canlyniad y gwaith hwn yn rhoi ystod o wybodaeth a fydd yn ein helpu i bennu uchafswm cost briodol ar gyfer gwella perfformiad ynni (sy'n rhoi'r buddiannau gorau posibl i Gymru gyfan) a mireinio'r broses weithredol.

## Atodiad 2

# Asesiadau Polisi

### Porth i Bolisïau

Cynhaliwyd Asesiad Porth i Bolisïau ar y ddogfen ymgynghori ar y Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Effeithlonrwydd ac Arbedion Ynni. Roedd yr asesiad hwn yn cynnwys trafodaeth gychwynnol ar nodau ac amcanion y polisïau gyda chynrychiolwyr o'r holl adrannau ar gam cynnar, ac yn ddiweddarach, cynhaliwyd asesiad llawn o'r ddogfen ymgynghori ddrafft gan grŵp o gynrychiolwyr adrannol gan ddefnyddio'r Adnodd Porth i Bolisïau. Dengys canlyniadau'r asesiad hwn isod. Gan fod yr ymgynghoriad ar y Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Effeithlonrwydd ac Arbedion Ynni wedi ystyried tlodi tanwydd ac wedi cynnig y dull a nodwyd yn y ddogfen ymgynghori hon ar y Strategaeth Tlodi Tanwydd, mae'n debygol y byddai materion tebyg yn cael eu codi a'u trafod. Felly, nid ydym wedi cwblhau asesiad Porth i Bolisïau arall ar y Strategaeth Tlodi Tanwydd ar y cam hwn. Fodd bynnag, byddwn yn cynnal asesiad Porth i Bolisïau pellach ar y fersiynau terfynol o'r Strategaeth Tlodi Tanwydd a'r Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Effeithlonrwydd ac Arbedion Ynni cyn iddynt gael eu cyhoeddi.

### Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb


Mae materion cydraddoldeb yn elfen bwysig o drafodaethau'r Porth i Bolisïau. Byddwn hefyd yn cwblhau Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ar y Strategaeth Tlodi Tanwydd arfaethedig yn ystod y cyfnod ymgynghori ac yn sicrhau bod y cyrff a ariennir gan Lywodraeth y Cynulliad i sicrhau cydraddoldeb ac amrywiaeth yng Nghymru yn ymwybodol o'r ymgynghoriad hwn.

### Rhestrau gwirio a phrofion polisi eraill

Mae rhestr wirio iaith Gymraeg a phrawf Prawfesur Gwledig wedi'u cynnal ar y ddogfen bolisi hon hefyd. Nid ydym yn disgwyl i'r polisi effeithio ar yr iaith Gymraeg a byddwn yn sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn ddwyieithog. Disgwyliwn y bydd y polisi yn cael effaith gadarnhaol ar ardaloedd gwledig drwy sicrhau na chaiff deiliaid tai mewn ardaloedd gwledig eu heithrio rhag pecynnau gwella ynni a ariennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru am fod eu cartrefi yn 'anodd eu trin'.

### Taflen Grynhoi Asesiad yr Adnodd Porth i Bolisïau – y Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Effeithlonrwydd ac Arbedion Ynni

| |
|---|
| Mae'r canlyniadau isod yn cynrychioli canlyniadau cytûn y Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Effeithlonrwydd ac Arbedion Ynni sy'n cael eu profi yn erbyn Adnodd Porth Llywodraeth y Cynulliad sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r holl Adrannau perthnasol. Mae'r cynrychiolwyr hynny yn cytuno bod hwn yn drosolwg cywir o'u sylwadau cyfunol. |




**Sylwadau Cryno**:

Bydd y camau arfaethedig yn gwneud cyfraniad da at fodloni amcanion amgylchedd cynaliadwy Cymru'n Un, a chyfraniad teg at yr amcanion dyfodol iach, cymdeithas ffyniannus a chymunedau byw. Nodwyd cyfleoedd i wella cyfraniadau at amcanion dysgu i fyw a chymdeithas deg a chyfiawn.

O ran dysgu i fyw, roedd cyfleoedd i wella synergeddau yn cynnwys rôl yr Hyrwyddwyr Newid yn yr Hinsawdd a chryfhau'r thema sgiliau a datblygiad addysg yn y Cynllun drafft.

Roedd cyfleoedd i gryfhau cyfraniadau at amcanion cymdeithas deg a chyfiawn yn cynnwys cysylltiadau cryfach â gwaith i leihau 'premiymau tlodi', cymryd rhan yng ngwaith ymchwil yr Uned Cynhwysiant Ariannol ar Dystiolaeth o Gydraddoldeb, ystyried sut y byddwn yn ymgysylltu â chymunedau, ystyried sut y gall gwahanol atebion ddod i'r amlwg mewn gwahanol ardaloedd, ac ystyriaeth fwy penodol o anghenion cymunedau gwledig. Mae ystyriaeth o'r pynciau hyn wedi'i chynnwys yn y ddogfen ymgynghori a chânt eu hystyried ymhellach gyda chydweithwyr wrth i'r camau arfaethedig gael eu datblygu.

Cafodd y lleihad mewn grantiau nad ydynt yn seiliedig ar brawf modd sydd ar gael i bobl hŷn ei godi fel mater a allai wrthdaro ag amcanion cymdeithas deg a chyfiawn. Fodd bynnag, pwysleisiodd tîm y prosiect unwaith eto bod lleihau grantiau nad ydynt yn seiliedig ar brawf modd yn golygu y gellir rhoi mwy o gymorth i'r deiliaid tai y mae angen y cymorth mwyaf arnynt (a fydd yn aml yn cynnwys pobl hŷn).

**Mae'r polisi yn adlewyrchu gwahaniaethau ledled Cymru yng nghyd-destun Cynllun Gofodol Cymru drwy:**

Gydnabod bod cyfleoedd gwahanol i arbed ynni a lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr yn bodoli mewn gwahanol rannau o Gymru yn ogystal â'r ffaith y gall tlodi tanwydd fod yn bryder penodol mewn rhai ardaloedd o ganlyniad i gyfuniad o dai aneffeithlon, diffyg mynediad i'r rhwydwaith nwy ac incwm isel. Bydd yr atebion mwyaf priodol i leihau ynni'r a ddefnyddir mewn ardaloedd penodol yn dibynnu ar dai lleol a'r mathau o adeiladau yn ogystal ag argaeledd tanwydd. Caiff yr aelwydydd sydd fwyaf tebygol o fod mewn tlodi tanwydd eu targedu ar raddfa ofodol ardal fach gan ddefnyddio data presennol a nodweddion yr aelwyd.

Llofnod:…………………………………………………………………..

Dyddiad :…………………………………..